## Atodiad 1: Cytundeb Cyflawni – Adroddiad Ymgynghori


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| | |
| **Cyrff Ymgynghori Penodol (Tabl 1)** | 2 |
| Dŵr Cymru | 2 |
| Trafnidiaeth Cymru | 2 |
| Cwmnïau Cyfleustodau | 4 |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Cyfagos | 4 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 4 |
| Llywodraeth y Deyrnas Unedig | 14 |
| Aelodau CBCDoC | 14 |
| Llywodraeth Cymru | 14 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | 16 |
| Network Rail | 16 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 16 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol a Pharciau Cenedlaethol (Tabl 1a) | 23 |
| **Cyrff Ymgynghori Cyffredinol (Tabl 2)** | 47 |

## Tabl 1: Cyrff Ymgynghori Penodol

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| Dŵr Cymru | Ni dderbyniwyd sylwadau | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Trafnidiaeth Cymru<br>CYF: TFW1 | **CYD-DESTUN POLISI:**<br>Er y cyfeirir at Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) De-orllewin Cymru yn y Crynodeb Gweithredol (1.1), mae'n drawiadol absennol o'r adran benodol ar y cyd-destun polisi. Mae'r CTRh yn ddogfen strategol allweddol ar gyfer y rhanbarth, gan fod symud pobl a nwyddau yn effeithlon yn rhan hanfodol o lwyddiant y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ac o sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh), mae'r CTRh yn amlinellu sut bydd trafnidiaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe yn cael ei wella rhwng 2025 a 2030. Mae'n pennu agenda glir ar gyfer moderneiddio a datgarboneiddio'r system drafnidiaeth trwy wneud y canlynol:<br>• Cefnogi twf economaidd<br>• Lleihau dibyniaeth ar deithio mewn ceir preifat | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriadau cryfach at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn yr adran cyd-destun polisi.** Bydd camau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol yn creu cyfleoedd i sicrhau aliniad pellach â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | • Gwella hygyrchedd a chysylltedd<br>• Lleiafu effeithiau amgylcheddol | | |
| CYF: TFW2 | **DEFNYDD TIR A THRAFNIDIAETH:**<br>Mae gwneud ystyriaethau trafnidiaeth yn rhan integredig o'r CDS ar gyfer De-orllewin Cymru yn cynnig manteision sylweddol trwy ganiatáu dull mwy cyfatebol, effeithlon a chynaliadwy o ymdrin â datblygu rhanbarthol. Mae'r Cytundeb Cyflawni Drafft yn pwysleisio bod cydlynu cynllunio trafnidiaeth â chynllunio gofodol yn helpu i ddylanwadu ar batrymau datblygu, lleihau'r angen am deithio, a gwella cysylltedd defnyddiau tir allweddol trwy ddatrysiadau trafnidiaeth amlfoddol, integredig. Mae hynny'n cryfhau dewisiadau teithio cynaliadwy, yn cefnogi datblygiad economaidd, ac yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor o ranbarth cystadleuol, cysylltiedig a chydnerth. Mae dull gweithredu unedig ar draws ardal y Cyd-bwyllgor Corfforaethol hefyd yn hybu cysondeb ar draws ffiniau, yn adlewyrchu ymddygiad teithio go iawn a swyddogaethau economaidd, ac yn sicrhau bod penderfyniadau seilwaith trafnidiaeth a defnydd tir yn cynnal ei gilydd yn hytrach na | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriadau cryfach at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn yr adran cyd-destun polisi.** Bydd camau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol yn creu cyfleoedd i sicrhau aliniad pellach â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | bod yn ynysig. Mae integreiddio o'r fath yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau cefnogaeth y cyhoedd a'r llywodraeth i gynlluniau pwysig, ac yn cyfrannu at strategaeth ranbarthol fwy cadarn, a seiliwyd ar dystiolaeth. | | |
| CYF: TFW3 | **CYDWEITHIO:**<br>Mae'n galonogol nodi yn adran 5.20 y rhagwelir cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru (TfW) a phartneriaid seilwaith eraill wrth ddatblygu'r CDS. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at gyfnodau datblygu a gweithredu'r cynllun. Yn ogystal â gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, rydyn ni'n argymell estyn yr ymgysylltu i Fwrdd Rheilffyrdd Cymru (WRB), yr Adran Drafnidiaeth (DfT), a Network Rail (NR) er mwyn sicrhau cynllunio cynhwysfawr, cydlynus ar drafnidiaeth ar draws y rhanbarth. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae Network Rail (NR) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT), ynghyd â chyrff trafnidiaeth eraill, eisoes wedi'u nodi fel ymgyngoreion penodol ar gyfer y CDS. **Ychwanegir Bwrdd Rheilffordd Cymru (WRC) at gronfa ddata ymgynghori'r CDS ac Atodiad 4.** | Oes |
| Cwmnïau Cyfleustodau | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| Cyfagos | | | |
| Byrddau Iechyd Lleol<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)<br>CYF: SBUHB1 | **Adborth cyffredinol ac ymgysylltu:** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB) yn croesawu'r cyfle i ymwneud â datblygu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) CBC DoC.<br><br>'Bae Abertawe Iachach' yw ein strategaeth sefydliadol, sy'n disgrifio ein hymrwymiad i greu dyfodol iachach i bawb yn ein cymunedau, dyfodol lle mae pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda, gyda chefnogaeth gofal o safon uchel sy'n dosturiol, yn deg, ac yn cael ei ddarparu gerllaw'r cartref A Healthier Swansea Bay - Swansea Bay University Health Board.<br><br>Mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yn bodoli yn ein cymunedau, ac mae cynllunio a datblygu yn cyflawni rôl allweddol o ran ymdrin â'r anghydraddoldebau hyn. Mae'r strategaeth sefydliadol a'r cynlluniau strategol sylfaenol yn golygu ein bod wedi ymrwymo i weithredu gyda'n partneriaid i wella iechyd y boblogaeth, | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir SBU.Partnerships@wales.nhs.uk a swanseabaylpht.admin@wales.nhs.uk at gronfa ddata ymgynghori'r CDS ac Atodiad 4.** | Oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | penderfynyddion iechyd ehangach, a lleihau anghydraddoldeb.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu'r cyfeiriad at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhanddeiliad allweddol yn y broses hon, a byddem ni'n cefnogi dull gweithredu'r BGC fel dull ymgysylltu parhaus. Mae'r BGCau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cydweithio ar nifer o fentrau sy'n cynnwys gwella mynediad at fwyd, a newid yn yr hinsawdd, y dylid eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw ddatblygiadau economaidd.<br><br>Gofynnir i chi ychwanegu'r cysylltiadau canlynol at eich cronfa ddata:<br><br>SBU.Partnerships@wales.nhs.uk<br>swanseabaylpht.admin@wales.nhs.uk | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Cymunedau cysylltiedig. Cyfleoedd i wella mynediad at gyfleusterau gofal iechyd a mwyafu cyfleoedd mewn perthynas â seilwaith iechyd: Hoffai'r Bwrdd Iechyd | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn parhau i ymgynghori ag SBUHB ynghylch cyfnodau allweddol cynhyrchu'r CDS. Mae asesiad | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| (SBUHB)<br>CYF: SBUHB2 | ymgysylltu'n gadarnhaol a rhagweithiol â datblygiad y CDS, a byddai'n croesawu'r cyfle i gynnal deialog yn gynnar â'r tîm cynllunio sy'n arwain y CDS, ynghylch cyfleoedd i wella iechyd a llesiant ein poblogaeth.<br><br>Rhaid i unrhyw ddatblygiadau strategol ystyried y posibiliadau o ran galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd a seilwaith iechyd yn gyffredinol, a dylai asesiad o'r galw gyd-fynd ag unrhyw Asesiadau Effaith ar Iechyd.<br><br>Mae'n werth nodi gofynion y Rheoliadau Asesiadau Effaith ar Iechyd, a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2027, sy'n gallu helpu i sicrhau bod unrhyw asesiadau integredig ac elfen Asesiad Effaith ar Iechyd yr AAS yn rhoi pwyslais cryf ar effeithiau iechyd.<br><br>Mae cymunedau cydnerth sydd â mynediad da at wasanaethau iechyd yn allweddol i gyflawni'r uchelgeisiau a'r genhadaeth a geir yn y cytundeb cyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio ar y cyd â Chynghorau | ynni adnewyddadwy lefel uchel / modelu effaith cynigion ar daflwybrau gostwng lefelau Nwyon Tŷ Gwydr yn rhan o'r dogfennau allweddol a'r asesiad o'r sylfaen o dystiolaeth yn Atodiad 2. Mae'r llawlyfr CDS drafft yn nodi bod rhaid i CBCau gymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth wrth asesu cysyniadau/opsiynau gofodol strategol. Enghreifftiau o hyn yw strategaethau a blaenoriaethau Cenedlaethol, megis datgarboneiddio a materion iechyd. Bydd amrywiol faterion, yn cynnwys iechyd a datgarboneiddio, yn derbyn sylw yng nghyfnodau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol, gan gynnwys yr ACI, sy'n cwmpasu Asesiad Effaith ar Iechyd a'r sylfaen o dystiolaeth, ac eto ar y lefel leol (CDLlAiau a CDLliau Cryno). | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wrth iddyn nhw ddiweddaru eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r rhaglen waith hon hyd yma wedi sicrhau cynnydd Asesiadau Effaith ar Iechyd penodol ac wedi'u targedu fel rhan o'r broses ymgynghori, mewnbwn iechyd i Bolisïau'r CDLl a'r potensial i ddatblygu Fframwaith ar gyfer ystyried sbardunau iechyd a dangosyddion i'w cynnwys yn y CDLl a ddiweddarwyd yn y ddwy ardal. Mae canfyddiadau allweddol y gwaith hwn hyd yma yn cynnwys yr ystyriaethau canlynol ar gyfer datblygiadau strategol:<br><br>• Darparu a hyrwyddo seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio cynhwysol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Cefnogi mynediad at ddewisiadau bwyd iach, cynaliadwy a fforddiadwy<br>• Sicrhau lefelau isel o lygredd aer a lleihau'r allyriadau niweidiol a brofir<br>• Ystyried capasiti gwasanaethau gofal sylfaenol a chefnogi mynediad cynaliadwy at Feddygfeydd | | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Teulu<br><br>Cyhoeddwyd y canllawiau canlynol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2025, ac mae wedi cefnogi trafodaethau'n lleol. [Planning-Healthy-Places-final-Eng.pdf]<br><br>Hoffai'r Bwrdd Iechyd archwilio cyfleoedd i sicrhau bod y CDS yn cydweddu â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd, ac yn benodol â Rhaglen Gyfalaf y GIG er mwyn sicrhau bod rhagdybiaethau twf yn cael eu cefnogi gan gapasiti gofal iechyd cyflawnadwy, fel yr amlinellwyd uchod. Mae ffyrdd modern o weithio yn gwneud defnydd cynyddol o fonitro o bell a chanolfannau diagnostig cymunedol, fel bod pobl yn cael eu symud o safleoedd aciwt, a bod mwy o ofal yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau cymunedol.<br><br>Ni chyfeirir at ddatgarboneiddio Ystadau Iechyd ~ mae tudalen 8 o gytundeb cyflawni'r ddogfen yn sôn bod y rhanbarth yn anelu at sero net erbyn 2050.  O ystyried bod ein hysbytai yn ddefnyddwyr ynni sylweddol, yn safleoedd | | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | seilwaith hollbwysig, ac yn asedau hirdymor, nid oes integreiddio penodol â strategaeth ddatgarboneiddio GIG Cymru. | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)<br>CYF: SBUHB3 | **Polisïau sy'n berthnasol i'r CDS:** Mae anghydraddoldebau hirsefydlog yn safon byw poblogaeth Bae Abertawe. Mae partneriaid lleol yn rhoi cefnogaeth gyffredinol i fynd i'r afael â hynny, ac mae sawl polisi yng Nghymru y gellir eu defnyddio i symud yr agenda hon ymlaen. Fe'u rhestrir isod, a dylid eu hystyried yn y CDS, lle bo hynny'n berthnasol:<br><br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Pwysau Iach: Cymru Iach (2019)<br>• Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd (2019)<br>• Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | • Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Corfforaethol hyd at 2030 – Byd Natur a Phobl yn Ffynnu gyda'i gilydd<br>• Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Llywodraeth Cymru<br>• Rheoliadau Asesiadau Effaith ar Iechyd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) (2017)<br>• Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio<br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>• Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017<br>• Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020<br>• Deddf Iechyd Cyhoeddus (Isafbris Alcohol) (Cymru) 2018<br>• Cymru ddi-fwg (2022)<br>• Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Sainluniau) | | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | (Cymru) 2024<br>• Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)<br>• Cynllunio Lleoedd Iach: Canllaw i awdurdodau lleol yng Nghymru i ymgorffori iechyd mewn polisi cynllunio; Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2025 Planning-Healthy-Places-final-Eng.pdf | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)<br>CYF: SBUHB4 | Polisïau a chynlluniau lleol sy'n berthnasol i'r CDLl:<br>Ymhlith y polisïau, y cynlluniau sefydliadol a'r rhaglenni eraill y dylid ystyried eu cynnwys mae'r canlynol (gellir darparu rhagor o fanylion yn ôl y galw):<br>• Cynlluniau Llesiant BGC<br>• Asesiad a Chynllun Anghenion Poblogaeth BPRh Gorllewin Morgannwg<br>• Asesiad Anghenion Fferyllol Bae Abertawe<br>• Cynlluniau Clwstwr Gofal Sylfaenol<br>• Strategaeth Llesiant Emosiynol a Meddyliol Gorllewin Morgannwg<br>• Cynlluniau BPRh Gorllewin Morgannwg ar gyfer cymunedau ac oedolion hŷn; anableddau dysgu a gofalwyr | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB) CYF: SBUHB5 | **Data iechyd i lywio'r CDS:** Argymhellir cynnal adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch seilwaith y gwasanaeth gofal iechyd yn awr ac i'r dyfodol, gan y bydd hynny'n helpu i lywio sut mae'r CDS yn rhoi sylw i anghenion gwasanaeth iechyd a gofal, ochr yn ochr ag ymgysylltu â sefydliadau iechyd eraill yn ôl y gofyn, e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Argymhellir bod tystiolaeth benodol am iechyd yn cael ei chynnwys yn yr 'asesiadau sylfaen o dystiolaeth a dogfennau allweddol', gan nad ymddengys ei bod ar gael ar hyn o bryd. Dylai hynny gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd yn ogystal.<br><br>Mae'r prif ffynonellau data yn cynnwys:<br>• Adroddiad Cyflwr Poblogaeth SBUHB (ar gael ar gais)<br>• Asesiad Anghenion Poblogaeth BPRh Gorllewin Morgannwg<br>• Asesiadau Llesiant y BGC | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r llawlyfr CDS drafft yn nodi bod rhaid i CBCau gymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth wrth asesu cysyniadau/opsiynau gofodol strategol. Enghreifftiau o hyn yw strategaethau a blaenoriaethau Cenedlaethol, megis datgarboneiddio a materion iechyd. Mae'r llawlyfr drafft hefyd yn nodi y dylai cynllunio ar gyfer gofal iechyd fod yn rhan o'r fframwaith polisi 'seilwaith ffisegol'. Bydd materion megis iechyd a datgarboneiddio, yn derbyn sylw yng nghyfnodau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol, gan gynnwys yr ACI, sy'n cwmpasu Asesiad Effaith ar Iechyd a'r sylfaen o dystiolaeth, ac eto ar y lefel leol (CDLlAiau a CDLliau Cryno). | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | • Asesiad Anghenion Fferyllol Bae Abertawe<br>• Asesiad Anghenion Iechyd y Trefniant Cydweithio Rhanbarthol dros Iechyd (ARCH)<br>• Dangosyddion llesiant cenedlaethol<br>• Proffiliau Clwstwr Gofal Sylfaenol<br>• Rhaglen Mesur Plant – sy'n mesur lefelau gordewdra a bod dros bwysau ymhlith plant ledled Cymru<br>• Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>• Adroddiad Cyflwr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>• Fframwaith Deilliannau Iechyd y Boblogaeth (PHOF) | | |
| Llywodraeth y Deyrnas Unedig | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |
| **Aelodau'r CBC** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | |
| CYF: WG 1 | Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch Cytundeb Cyflawni (CC) Drafft Cynllun Datblygu Strategol (CDS) Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Meddu ar Gytundeb Cyflawni cytunedig sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 yw'r conglfaen sy'n golygu bod modd mynd ati'n ffurfiol i baratoi'r CDS. Mae CC yn nodi Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG), amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun, a hefyd yr adnoddau ariannol priodol sy'n angenrheidiol i ddangos y bydd cynnydd yn digwydd yn unol â'r amserlen.<br>Mae ein swyddogion ni wedi bod yn gweithio gyda swyddogion o'r CBC i symud ymlaen gyda CC drafft, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 20 Chwefror 2026. Mae ymgysylltu a thrafod rheolaidd, ynghyd â chyswllt â rhanbarthau eraill, wedi sicrhau cynnydd cadarnhaol, adeiladol at gyflawni CC Drafft. Croesawir y cyswllt agos hwn, ac mae ein | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | swyddogion yn cydnabod ymdrech a chyflawniad swyddogion y CBC i gyrraedd y fan hon. | | |
| CYF: WG 2 | O ran CCG ac amserlen y CC Drafft, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ddwy agwedd. Bernir bod yr amserlen yn realistig, yn unol â dull gweithredu rhanbarthau eraill, O ran dulliau ymgynghori a chyrff/grwpiau ymgynghori, mae LIC o'r farn mai'r rhanbarth sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu â phwy y dylid ymgynghori, ar sail profiad a gwybodaeth am gynllunio yn y gorffennol. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: WG 3 | Mae canfod yr adnoddau angenrheidiol i baratoi'r CDS yn rhan annatod o broses y CC. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am yr adnoddau a ddyrannwyd er mwyn paratoi CDS yn Ne-orllewin Cymru. Bydd angen i CBC DoC nodi'n glir yr adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi'r CDS a chadarnhau bod darpariaeth briodol yn y gyllideb cyn y gall LIC gytuno ar y CC terfynol. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r rheoliadau CBC yn gosod dyletswydd ar y CBC a'r awdurdodau lleol sy'n rhan ohono i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r ddyletswydd honno'n cwmpasu ymrwymo i ariannu costau cynhyrchu'r cynllun. Bydd mater ariannu yn derbyn sylw yn y cylch nesaf o adroddiadau gwleidyddol ar gyfer y CBC. **Bydd adran adnoddau'r CC yn cael ei diweddaru cyn iddo gael ei gyflwyno'n derfynol i LIC.** | Oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |
| **Network Rail** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |
| **Cyngor Gwledig Llanelli** | | | |
| CYF: LRC1 | Mae'r cyngor yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r CDS, sy'n cychwyn trwy gyflawni'r cyfnodau allweddol a nodwyd yn y cytundeb cyflawni. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: LRC 2 | Am y tro, defnyddiwch fy manylion cyswllt i er mwyn rhannu unrhyw wybodaeth neu waith papur. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y byddaf yn ymddeol ar 31 Gorffennaf 2026.<br><br>Diolch am ymgynghori â'r cyngor a chasglu ei ddiddordeb. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| **Cyngor Cymuned Penllergaer** | | | |
| CYF: PCC1 | Mae Cyngor Cymuned Penllergaer yn croesawu'r cyfle a | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | roddwyd i fod yn rhan o'r broses o greu Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru. | | |
| CYF: PCC2 | Er ein bod yn gwerthfawrogi'n llawn bod y CBC, ar hyn o bryd, yn cyfyngu cyfranogiad rhanddeiliaid i sylwadau mewn perthynas â'r CC a'r CCG arfaethedig yn unig, teimlwn ei fod yn bwysig tynnu'ch sylw hefyd at ein pryderon ynghylch materion eraill y bydd angen rhoi sylw iddynt ar frys er mwyn ymdrin yn briodol â nhw.<br>O ran unrhyw sylwadau sydd gennym ar y **Cytundeb Cyflawni**, ein prif bryder yw'r amserlen arfaethedig, ond yn fwy penodol perthynas hynny â'r amseriad a gynigiwyd gan Ddinas a Sir Abertawe ar gyfer CDLl2.<br>Os oes bwriad i'r CDS:<br>"….*sicrhau aliniad a chydweithio ar draws ffiniau gweinyddol llywodraeth leol yn Rhanbarth DoC, gan adlewyrchu sut mae pobl yn byw, sut mae marchnadoedd yn gweithredu, a sut mae'r system drafnidiaeth a busnesau'r rhanbarth i gyd yn rhyngweithio a gweithredu. Mae hyn yn cynrychioli dull gweithredu mwy cydlynus nag yn y gorffennol; a chyfatebiaeth fanwl ag uchelgais* | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r amserlen a gynigiwyd ar gyfer y CDS yn cyfateb i'r targed pum mlynedd a nodir yn y Llawlyfr CDS drafft, ac mae'n gyflawnadwy cyhyd â bod yr adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu. Mae'r llawlyfr CDS drafft yn nodi bod CDLliau a fabwysiadwyd neu sy'n dod i'r amlwg yn gallu bod yn fan cychwyn defnyddiol wrth lunio'r CDS. Gallai CDLliau a fabwysiadwyd/sy'n dod i'r amlwg o bosib lunio elfen tymor byr i ganolig cyfnod cynllunio'r CDS. O ran y tymor hwy, bydd dadansoddiad gofalus o sut mae lleoedd yn gweithredu, eu rôl, eu cynaliadwyedd, a sut maen nhw'n rhyngweithio ag aneddiadau eraill yn allweddol wrth ddatblygu gweledigaeth a strategaeth hirdymor.<br>Dylai CBCau gynnal archwiliad trylwyr o'r | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | *datblygu economaidd a'n gweledigaeth ar gyfer dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth ."* rydym o ddifri yn cwestiynu ac yn herio a ellir gwireddu'r uchelgais hon.<br>Mae'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer CDLl2 yn rhagweld dyddiad mabwysiadu ym mis Rhagfyr 2027, tra nad oes bwriad i fabwysiadu'r CDS tan fis Rhagfyr 2031. Mae bwriad i'r ymgynghori ar Gynllun Adnau CDLl2 gychwyn ym mis Ebrill 2026, sy'n codi'r cwestiwn a yw'r "cert bellach yn tynnu'r ceffyl". | dystiolaeth a ddefnyddiwyd i baratoi CDLliau yn y rhanbarth, gan ddadansoddi, rhesymoli a chynhyrchu methodolegau safonol ar gyfer llunio a choladu tystiolaeth. Gall adroddiadau monitro blynyddol hefyd ddarparu tystiolaeth gadarn ar gyfer y CDS. CDLliau sy'n darparu'r blociau adeiladu ar gyfer y genhedlaeth gyntaf o CDSiau. Fodd bynnag, dylid ystyried y weledigaeth tymor hwy ar gyfer y rhanbarth o'r newydd, gan roi sylw i faterion rhanbarthol ehangach a sbardunau newid.<br>Pan gaiff CDS ei fabwysiadu, dylai ACLlau oddi mewn i ffiniau'r CDS baratoi Cynllun Datblygu Lleol Cryno (CDLlC) a fydd yn canolbwyntio ar ddyraniadau a pholisïau lleol.<br>Rhaid i bob CDLl gydymffurfio'n gyffredinol â'r CDS a Chymru'r Dyfodol. | |
| CYF: PCC3 | I droi'n awr at fater y CCG yr ydych yn ei gynnig, mae'r | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | ffaith eich bod yn hybu “cyfranogiad gweithredol” yn galondid i ni, ond mae’r rôl y mae angen i Gyngor Cymuned Penllergaer ei chwarae yn mynd y tu hwnt i’r hyn a ragwelir yn y CCG, fel y gwelir yn fuan. Fel cymuned rydym eisoes wedi codi pryderon dirifol ynghylch dogfen y Strategaeth a Ffafrir a gynhyrchwyd ar gyfer CDLl2. Ni chawsom ymateb gan CDLl2 i’n pryder, sydd ond yn cadarnhau ein barn nad yw Abertawe’n cymryd cyfraniad y gymuned o ddifri.<br>Rydyn ni’n edrych ymlaen at agwedd fwy rhagweithiol gennych chi, ond er mwyn i chi ddeall ein pryderon yn well rydym wedi cynnwys at eich sylw gopïau o’r sylwadau a anfonwyd gennym at dîm CDLl2 ym mis Ebril 2025, na chawsom ateb i’r un ohonynt. | | |
| CYF: PCC4 | Cefndir ein pryderon<br>Mae Penllergaer, ar bwys cyffordd 47 o draffordd yr M4, yn dioddef mwy nag unrhyw gymuned arall yn Ne Cymru oherwydd lefelau annerbyniol o dagfeydd traffig a phopeth cysylltiedig â hynny. Gwaethygwyd y broblem honno gan y datblygiad tai gormodol diweddar o amgylch C47 ac yn sgîl | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | ei bwysigrwydd fel dolen gyswllt strategol â Gogledd-orllewin Dinas a Sir Abertawe. Mae'r problemau cysylltiedig â C47 yn ddigon hysbys. Roedd y Papur Pwnc ar Drafnidiaeth a Hygyrchedd a gynhyrchwyd yn 2013 ar gyfer CDLl1 yn cydnabod bod C47 o'r M4 yn dioddef cryn dagfeydd. Roedd ymhellach yn cydnabod bod angen rhoi cyfres o welliannau lleol ar waith cyn y gellid datblygu safleoedd. Mae datblygu wedi digwydd yng Ngogledd-orllewin y Sir, ond ni welwyd y gwelliannau angenrheidiol i'r priffyrdd. Mae'r methiant hwn wedi golygu bod y tagfeydd traffig yn waeth, ac ni fydd y gwelliannau angenrheidiol hyn yn cael eu cyflawni.<br>Seiliwyd CDLl1 ar Fodel Traffig Strategol a baratowyd gan Arup, a ddaeth i'r casgliad:<br>"Gyda datblygiadau CDLl, mae symudiadau traffig yn cynyddu bron 30% a bydd amodau traffig yn anochel yn waeth nag yn 2014. Heb fesurau seilwaith a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus bydd yr effaith yn sylweddol waeth o ran oedi, tagfeydd, ansawdd aer, sŵn ac anfanteision economaidd." | | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Dyna'r sefyllfa bresennol y mae tîm CDLl2, o farnu'n negyddol, heb ei chydnabod, neu o farnu'n gadarnhaol, yn methu darparu ateb iddi.<br>Mae CDLl2 yn dal i grynhoi datblygiadau tai yng Ngogledd-orllewin y Sir, gan nodi angen am dai sydd yn hollol ormodol yn ein barn ni, ac wedi'i seilio ar safleoedd datblygu strategol sydd eisoes yn bodoli ond na fyddant yn cael eu cyflawni, ac na fyddant yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru o ran tai fforddiadwy.<br>Ceir manylion llawnach a gwell am y methiannau hyn yn y sylwadau heb eu hateb a gyflwynwyd i dîm CDLl2 ym mis Ebrill 2025. Mae'r pryderon yr ydym wedi'u rhannu â CDLl2 yn faterion y bydd angen rhoi ystyriaeth briodol iddynt hefyd, yn y pen draw, yn y CDS. Gan fod cost cyllideb o bron £3.3m wedi'i dyrannu o'r pwrs cyhoeddus i dalu am gost paratoi'r CDS, mae'n hanfodol bwysig bod y dyraniad hwn yn cael ei wario'n briodol.<br>Rydyn ni'n edrych ymlaen at dderbyn cadarnhad eich bod wedi derbyn y sylwadau hyn yn ddiogel. Fodd bynnag, os bydd unrhyw faterion lle teimlwch fod angen eglurhad | | |

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | pellach gennym, cysylltwch â'r awdur ar bob cyfrif. | | |

**Tabl 1a: Awdurdodau Cynllunio Lleol a Pharciau Cenedlaethol (sylwadau swyddogion)**

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law | Amherthnasol | Amh |
| **Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA)** | | | |
| CYF:PCNPA 1 | **Amserlen ac ymgysylltu:** Ymddengys yr amserlen a gynigir ar gyfer paratoi'r CDS yn uchelgeisiol, ac eto'n briodol ac yn gymesur. Yn arbennig, mae caniatáu dros ddwy flynedd a hanner ar gyfer casglu tystiolaeth a gwaith paratoadol cyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffafrir ym mis Mehefin-Gorffennaf 2028, gyda 18 mis arall yn dilyn cyn yr ymgynghoriad Adnau ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2029, yn ymddangos yn rhesymol. Dylai hynny roi digon o gyfle i ddatblygu sylfaen gadarn o dystiolaeth ac opsiynau strategol ystyrlon. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCNPA 2 | Er bod y Cytundeb Cyflawni yn cyfeirio'n briodol at y cyfnodau ymgynghori statudol gofynnol o chwe wythnos, byddai'r Awdurdod yn annog ystyried estyn cyfnodau ymgynghori y tu hwnt i'r cyfnodau lleiaf hyn lle bynnag y bo modd. Byddai cyfnodau hwy o ymgynghori | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | yn helpu i fwyafu ymgysylltiad, yn enwedig ymhlith grwpiau anoddach eu cyrraedd, ac yn cefnogi cyfranogiad mwy gwybodus a chynhwysol. | | |
| CYF: PCNPA 3 | **Dull o ymgynghori a chyfathrebu:** Mae'r Awdurdod yn nodi bod y Cytundeb Cyflawni drafft yn cyfeirio at y ffaith mai'r dull diofyn fydd rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu electronig ac ymgysylltu rhithwir (paragraff 5.34). Rydym yn cydnabod y gall y dull gweithredu hwn fod yn effeithlon ac yn hygyrch i lawer o randdeiliaid. Rydym hefyd yn croesawu cadarnhad y bydd copïau papur dwyieithog o ddogfennau ar gael mewn lleoliadau penodol. Ar ben hynny, mae paragraff 5.38 yn cyfeirio at ddefnydd posibl o arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys sesiynau galw heibio ac arddangosfeydd rhithwir. Mae'r Awdurdod o'r farn ei fod yn arbennig o bwysig cynnal sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb dwyieithog, a'r rheiny â gwasgariad da ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau ymgysylltiad eang, cynhwysol, a galluogi ein holl gymunedau, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i gyfranogi'n llawn yn y broses. Gall digwyddiadau o'r fath chwarae rhan allweddol wrth hybu dealltwriaeth o'r CDS, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i oblygiadau, a | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | galluogi deialog ystyrlon gydag unigolion mewn cymunedau lleol, gan gynnwys y rhai sydd o bosib yn llai cyfforddus gydag ymgysylltiad digidol yn unig. | | |
| CYF: PCNPA 4 | **Adnoddau a chostau:** Mae'r gost a amcangyfrifir, sef rhyw £3.2 miliwn i baratoi'r CDS, yn sylweddol ac yn amlygu graddfa a phwysigrwydd y dasg. Bydd cyflawni'r CDS yn galw am ymrwymiad clir a chefnogaeth gyson gan yr holl awdurdodau cyfranogol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau adnoddau digonol a charai bwysleisio pwysigrwydd eglurder ynghylch trefniadau ariannu er mwyn sicrhau bod y cyflawni'n cadw ar y llwybr cywir. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r Rheoliadau CBC yn gosod dyletswydd ar y CBC a'r awdurdodau lleol sy'n rhan ohono i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r ddyletswydd honno'n cynnwys ymrwymo i dalu am gostau cynhyrchu'r cynllun. Bydd mater ariannu yn derbyn sylw yn y cylch nesaf o adroddiadau gwleidyddol ar gyfer y CBC. **Bydd adran adnoddau'r CC yn cael ei diweddaru'n unol â hynny cyn cyflwyno'r ddogfen derfynol i LIC.** | Oes |
| CYF: PCNPA 5 | **Staffio a secondiadau** Mae paragraff 7.10 yn amlygu secondiadau fel dull o gefnogi paratoi'r CDS a allai fod yn ddefnyddiol ac yn gost- | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | effeithiol, ac mae'n cydnabod y pwysau ehangach ar Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), gan gynnwys mewn perthynas â pharatoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol eu hunain. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod gwerth posibl secondiadau mewn egwyddor, mae'n bwysig nodi bod gennym ni Gytundeb Cyflawni cytunedig yn ei le ar gyfer paratoi ein Cynllun Datblygu Lleol amnewid (CDLl 3) yn ystod y pedair blynedd nesaf, sy'n rhoi ein hadnoddau staff o dan bwysau anochel. Serch hynny, rydym o'r farn ei fod yn bwysig cynrychioli buddiannau'r Parc Cenedlaethol yn y rhanbarth a byddem ni'n croesawu cyfle i'n swyddogion ymwneud â pharatoi'r CDS. | | |
| **Cyngor Abertawe** | | | |
| CYF: SC1 | Diolch am eich e-bost dyddiedig 19 Ionawr 2026. Rydym yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau ar Gytundeb Cyflawni (CC) Drafft y Cynllun Datblygu Strategol. Sylwch y dylid ystyried y sylwadau hyn fel adborth anffurfiol i gynorthwyo'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn cynhyrchu fersiwn derfynol o'r CC.<br>Sylwer mai Aelod Cabinet Cyngor Abertawe ar gyfer Cyflawni (y | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Dirprwy Arweinydd ar y Cyd) yw'r Cyng David Hopkins, sy'n Aelod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol. Ar ben hynny, Aelod Cabinet y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol (Rhannu Swydd) – lle mae Gwasanaethau Cynllunio yn rhan o'r portffolio – yw'r Cyng Andrew Williams. I gael cyd-destun ehangach, byddwch yn ymwybodol, yn ogystal â bod yn Arweinydd y Cyngor hwn, mai'r Cyng Rob Stewart hefyd yw Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. | | |
| CYF: SC2 | Er eglurder, fe sylwch mai sefyllfa'r cynllun datblygu yn Abertawe yw bod Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (2010-2025 – a fabwysiadwyd yn 2019) bellach wedi dod i derfyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynllun datblygu newydd i Abertawe – CDLl2. Ar ôl ei fabwysiadu, CDLl2 fydd y glasbrint cynllunio newydd ar gyfer datblygu ledled Abertawe yn y dyfodol hyd at 2038. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos ar y Strategaeth Cyn-Adnau a Ffafrir rhwng 24 Chwefror ac 18 Ebrill 2025. Hefyd ar gael ar gyfer sylwadau roedd dogfennau ategol allweddol, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, Adroddiad Sgrinio Cyfnod 1 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | ymgynghori ar Gynllun Adnau CDLl2 yn cychwyn ddiwedd 2026. Gallwch weld Cytundeb Cyflawni Diwygiedig CDLl2 Abertawe, ynghyd ag ystod o wybodaeth bellach, ar ein tudalen benodol ar y we ar gyfer CDLl2, yma: https://www.swansea.gov.uk/LDP2 | | |
| CYF: SC3 | O droi at y CC Drafft ar gyfer y CDS ei hun, bernir bod y ddogfen wedi'i pharatoi'n dda, yn glir ac yn gryno. Isod cyflwynir rhai sylwadau penodol ar gyfer adolygu ac ystyriaeth fel sy'n briodol:<br>Penodau 2, 3, 4 a 5<br>Mae'r penodau hyn yn darparu adolygiad defnyddiol o'r cyd-destun perthnasol o ran polisi a deddfwriaeth. Maent hefyd yn darparu'r agweddau gweithdrefnol perthnasol wrth baratoi'r CDS, ynghyd â chysylltiadau pwysig â llifoedd gwaith eraill allweddol y mae'r CBC yn eu gyrru yn eu blaenau, lle dylai fod aliniad â'r CDS. Cefnogir eu cynnwys yn gyffredinol yn hyn o beth.<br>Bernir y byddai Penodau 2 a 4 (yn fwyaf arbennig paragraffau 4.13-4.16) yn elwa o gyfeirio'n benodol at Gynllun Corfforaethol y CBC 2023-2028, a hynny o ran croesgyfeirio at amcanion llesiant y CBC ac egluro rôl y CDS o ran darparu mynegiant defnydd tir o uchelgais gorfforaethol y CBC. Gallai fod o gymorth hefyd petai trosolwg byr o'r | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriadau at y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.** | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei ychwanegu at Bennod 2, o bosib er mwyn egluro'i statws a rhai o'i negeseuon lefel uchel – mewn modd tebyg i'r hyn a wnaed gyda Chynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (REDP) (2021-30). | | |
| CYF: SC4 | Gan gyfeirio'n benodol at baragraff 4.12 (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), byddem ni'n cynghori rhoi sylw dyledus i'n sylwadau isod ar nitradau. | Sylwadau wedi'u nodi. **Bydd paragraff 4.12 ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei ehangu i gyfeirio at yr heriau mae De-orllewin Cymru yn eu hwynebu o ran ansawdd dŵr afonydd a'r môr**. | Oes |
| CYF: SC5 | O ran paragraffau 4.20 a 4.21, gallai fod yn fuddiol nodi amserlenni CDLliau a Fabwysiadwyd a/neu rai Amnewid ar draws y rhanbarth yn y CC. Bydd hynny'n rhoi darlun clir i'r darllenydd o ran yr heriau a wynebir yng nghyswllt y gwahanol amserlenni sydd ar waith. Gan gyfeirio'n benodol at baragraff 4.28, byddem ni'n pwysleisio bod gan y rhanbarth hanes cadarn o weithio'n rhanbarthol, gan gynnwys trwy'r Fargen Ddinesig, gyda Chyngor Abertawe yn chwarae rôl allweddol yn hyn o beth. Gyda golwg ar fframio peth o'r cyd-destun | Yn hytrach nag fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ei hun, sy'n ddogfen weithdrefnol, papur sylfaen o dystiolaeth yw'r ffordd orau o roi sylw i'r terfynau amser hyn, gan fod modd iddynt newid. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | rhanbarthol, mae dolen i Bapur Cefndir/Technegol a baratowyd ar Gydweithio Rhanbarthol fel rhan o'r ymgynghoriad ar Strategaeth Cyn-Adnau a Ffafrir CDLl2 Abertawe i'w gweld yma, a gallai fod o gymorth i chi: https://swansea.oc2.uk/docfiles/45/Swansea_LDP2_Regional_Collaboration_December_2024.pdf | | |
| CYF: SC5 | O ran paragraff 4.30, dylai'r CDS roi ystyriaeth i gysylltiadau economaidd a gweithredol ag Iwerddon (fel sy'n ofynnol yn Cymru'r Dyfodol), ac felly dylai fynnu cyswllt ac ymgysylltiad â chyrff cynllunio priodol yno, gan roi sylw i symudiadau rhwng De-orllewin Cymru ac arfordir gorllewinol Iwerddon. Dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y bennod/yr atodiad ar ymgynghori ac ymgysylltu a'r rhestr ymgyngoreion yn y cyswllt hwn. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae ystod o ymgyngoreion Cyffredinol sydd â chysylltiad ag Iwerddon wedi'u cynnwys yn Atodiad 4, ond mae modd cynnwys mwy o gysylltiadau Gwyddelig. | Oes |
| CYF: SC7 | <u>Pennod 6</u><br>Nodir Amserlen arfaethedig y CDS, ynghyd â'r cyfeiriad at Atodiad 6 o'r CC. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: SC8 | <u>Pennod 7</u><br>Mae'r Bennod yn darparu trosolwg realistig a phragmataidd o'r adnoddau sy'n ofynnol i baratoi CDS. O ran y Strategaeth Adnoddau, | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r Rheoliadau CBC yn gosod dyletswydd ar y CBC a'r awdurdodau lleol sy'n | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | cytunir bod sefydlu tîm ‘craidd’ rhanbarthol annibynnol yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau staff digonol yn eu lle i baratoi a chyflawni’r CDS. Cefnogir y rolau craidd a gynigir. Cytunir bod risg y gallai recriwtio staff o Awdurdodau Cynllunio Lleol o fewn y rhanbarth adael timau’r Cynlluniau Lleol hynny mewn sefyllfa anodd o ran adnoddau eu hunain. Mae’r bennod yn glir o ran cyfyngiadau’r cyllid presennol sydd ar gael ac absenoldeb datrysiad ariannu llawn. Mae paragraff 7.10 yn cyfeirio at secondiadau, a chytunir mewn egwyddor y gall y rhain fod yn ddull cost-effeithiol o gaffael gwybodaeth a sgiliau arbenigol, ochr yn ochr â gwneud y tîm craidd yn fwy cydnerth. Fodd bynnag, cefnogir y cyfeiriad at “gynllunio pob secondiad yn ofalus i sicrhau amharu cyn lleied â phosibl ar y prosesau CDLI sy’n parhau (bydd secondiadau’n cael eu hystyried dim ond lle mae galwadau presennol o ran llwyth gwaith yn caniatáu’r trefniant hwn)”. Gallai fod yn ddoeth cryfhau hynny ymhellach trwy egluro mai mater i bob ACLI fydd ystyried ei sefyllfa yn hyn o beth, er mwyn cadarnhau’r ymreolaeth a roddwyd i bob ACLI. O ran paragraffau 7.11 a 7.12, cefnogir y cynigion o ran Adnoddau a Rennir a’r Rhaglen Hyfforddi i Raddedigion. | rhan ohoni i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol. Mae’r ddyletswydd honno’n cynnwys ymrwymo i dalu am gostau cynhyrchu’r cynllun. Bydd mater ariannu yn derbyn sylw yn y cylch nesaf o adroddiadau gwleidyddol ar gyfer y CBC. **Bydd adran adnoddau’r CC yn cael ei diweddaru’n unol â hynny cyn cyflwyno’r ddogfen derfynol i LIC.** | |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| CYF: SC9 | <u>Atodiad 2</u><br>Mae'r amserlen yn fanwl ac o gymorth yn yr ystyr ei bod yn fframio'n glir rai o'r ystyriaethau perthnasol. Eto, wrth ategu'r gwaith rhanbarthol sefydledig yn Ne-orllewin Cymru, fe nodwch fod hanes o waith a gomisiynwyd ar y cyd yn y blynyddoedd diwethaf – gan gynnwys 'Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cyfnod 1 – De-orllewin Cymru (SFCA)' (Tachwedd 2022). Hefyd, mae Cynghorau CNPT ac Abertawe wedi cydweithio'n ddiweddar i gomisiynu Asesiad Twf Tai ac Economaidd i lywio'u CDLliau eu hunain. Er y bydd yr union dystiolaeth sy'n angenrheidiol yn dod i'r amlwg wrth i'r CDS fynd rhagddo, bernir bod yr amserlen a nodir yn Atodiad 2 yn addas gan ei fod yn crynhoi'r meysydd pwnc disgwyliedig – er na cheir cyfeiriadau penodol at y Gymraeg a Iechyd (derbynnir y gallai'r rhain fod yn rhan o unrhyw asesiad effaith integredig beth bynnag). | Sylwadau wedi'u nodi. Bydd yr ACI yn cynnwys Asesiad Effaith ar Iechyd ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg. | Nac oes |
| CYF: SC10 | Rhoddir sylwebaeth benodol ynghylch mater Nitradau mewn man arall yn yr ymateb hwn, ac er y derbynnir y gallai fod yn rhy gynnar i ganfod beth yn union fyddai cydran sy'n darparu tystiolaeth yn achos y pwnc hwn – gallai fod o gymorth cyfeirio ato o leiaf fel maes pwnc yn Atodiad 2, gan fod goblygiadau mor anferthol iddo. | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir Asesiad Effaith Nitradau, Maetholion Eraill ac Ansawdd Dŵr at y rhestr o astudiaethau sylfaen o dystiolaeth yn Atodiad 2.** | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| CYF: SC11 | Cefnogir y dull arfaethedig o gomisiynu Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr rhanbarthol ac Asesiad Safle Tramwy ar gyfer Llety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ystyr eu bod yn faterion y gellir barnu bod iddynt arwyddocâd rhanbarthol. Bydd angen rhoi sylw dyledus i alinio (ac o bosib flaenoriaethu rhai astudiaethau o ran y terfynau amser gofynnol) sydd â darpariaethau deddfwriaethol perthnasol dros ben cynllunio'n unig – yn fwyaf amlwg gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014. Byddai angen ystyriaethau tebyg ar gyfer yr Asesiad Marchnad Dai rhanbarthol arfaethedig, yn ogystal ag ystyried a yw hon yn dasg lle dylid ystyried rhoi'r gwaith i ymgynghorwyr allanol (ar hyn o bryd mae disgwyl iddi gael ei chyflawni gan swyddogion y CBC) oherwydd graddfa a chymhlethdod y gwaith a'r traws-gysylltiadau angenrheidiol â'r asesiadau twf economaidd/ddemograffeg. Cefnogir y sylfaen o dystiolaeth a gynigir ar gyfer mwynau yn ogystal. Ymddengys yn rhesymol fod mwynau'n cael eu dosrannu ar lefel ranbarthol. | Sylwadau wedi'u nodi. **Bydd yr Asesiad Marchnad Dai yn cael ei ddiweddaru, a'i baratoi gan ymgynghorwyr allanol.** | Oes |
| CYF: SC12 | <u>Atodiad 5</u><br>Bydd Canolfan Ddinesig Abertawe yn cau'n llwyr eleni. O ganlyniad, dylid defnyddio'r cyfeiriad canlynol fel prif swyddfa – Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE. | Sylwadau wedi'u nodi. **Diweddarir Atodiad 5 a'r cyfeiriad a ddarparwyd ar gyfer Canolfan Ddinesig Abertawe.** | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| CYF: SC13 | Atodiad 7<br>Bernir bod yr Asesiad Risg yn darparu trosolwg realistig ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn amlwg, a chan gyfeirio ymhellach at y sylwadau hynny a wnaed yn flaenorol, bydd darpariaeth adnoddau ac argaeledd staff cymwysedig yn ystyriaethau nodedig. Gan gyfeirio'n benodol at y pennawd "Gofynion ychwanegol sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd, canllawiau cenedlaethol neu dystiolaeth newydd", fe nodwch y sefyllfa o ran nitradau. Mae ACLlau yn y rhanbarth wedi bod yn delio â heriau mewn perthynas â chyhoeddi cyngor ynghylch ACA Morol yn ddiweddar, ochr yn ochr â materion technegol eraill, megis cyhoeddi polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ar berygl llifogydd. Gan gyfeirio'n benodol at nitradau, bernir na ellir osgoi'r risg mae'n ei achosi i gynhyrchu CDS sy'n bodloni'r profion cadernid ac y mae modd ei fabwysiadu. Mae'r mater hwn hefyd yn cwestiynu cadernid ac integriti Cymru'r Dyfodol 2040 – o ystyried dynodiad Bae Abertawe ac NGA Llanelli.<br>Hyderwn fod yr uchod yn ddefnyddiol, ac edrychwn ymlaen at barhau â dull gweithredu adeiladol a chydweithredol yn y cyswllt | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriad at nitradau ac ansawdd dŵr i'r asesiad risg.** Mae hyn eisoes yn derbyn sylw yn yr asesiad risg o dan "Gofynion ychwanegol sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd, canllawiau cenedlaethol neu dystiolaeth newydd". | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | hwn. | | |
| **Cyngor Sir Penfro** | | | |
| CYF: PCC 1 | Ysgrifennaf mewn perthynas â'r uchod ac i roi gwybod na fydd Cyngor Sir Penfro yn darparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Serch hynny, isod ceir sylwadau anffurfiol gan y swyddog, i'w hystyried gan y CBC:<br><br>Atodiad 1 – Cytundeb Cyflawni Drafft<br>Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cynnwys gwybodaeth ragarweiniol, yn esbonio pwrpas y Cynllun Datblygu Strategol a rôl Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wrth ei baratoi. Yn ôl y disgwyl, o ystyried rôl y CBC yn symud cynllunio rhanbarthol yn ei flaen o ran defnydd tir, yr economi, trafnidiaeth ac ynni adnewyddadwy, mae'r deunydd a gyflwynir yn glir ac yn gadarn ar faterion economaidd rhanbarthol, ar bwysigrwydd creu lleoedd, ar ynni adnewyddadwy, ar drafnidiaeth, ac ar bwysigrwydd datgarboneiddio. Hefyd mae pwyslais cryf ar rôl bwysig Cynllun | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Datblygu Strategol De-orllewin Cymru wrth ddarparu ar gyfer tai yn y dyfodol ar draws y rhanbarth. Mae hefyd gydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac ymrwymiad i integreiddio ystyriaethau o ran y Gymraeg yn llawn wrth baratoi'r CDS rhanbarthol. | | |
| CYF: PCC 2 | Mae paragraff 1.3 o'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cyfeirio at yr ardal ddaearyddol eang a gwmpasir gan y CDS, a'r disgwyl y bydd hynny'n arwain at 'ddull gweithredu mwy cydlynus nag yn y gorffennol, sy'n cyfateb yn fanwl i'n huchelgais o ran datblygu economaidd a'n gweledigaeth ynghylch dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth'. Mae Cytundeb Cyflawni Cyngor Sir Penfro ar gyfer y CDLl amnewid yn cyfeirio at yr angen am gydymffurfiaeth gyffredinol â darpariaethau Llywodraeth Cymru yn 'Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040' a hefyd, ar ôl ei fabwysiadu, y CDS rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n nodi bod gwahaniaethau economaidd a diwylliannol rhwng Siroedd (ac weithiau oddi mewn iddynt), gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rôl twristiaeth, a rôl gwahanol ardaloedd o ran yr economi. Bydd angen i'r CDS gwmpasu'r gwahaniaethau hyn a dangos sut | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | mae modd eu cyfuno, ar lefel ranbarthol, i greu gweledigaeth gyffredin y mae pob ardal yn cyfrannu ati mewn amrywiaeth o ffyrdd. | | |
| CYF: PCC 3 | Mae'r deunydd rhagarweiniol ar yr amgylchedd, gan gynnwys yr heriau amgylcheddol sylweddol sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr afonydd mewn dyfrffyrdd gwarchodedig ac eraill ar draws y rhanbarth, yn cael llai o sylw, fel y mae llawer o agweddau ar yr heriau a achosir gan newid yn yr hinsawdd ar draws y rhanbarth (ac efallai bod gofyn rhoi mwy o bwyslais ar hyn o ystyried bod argyfyngau hinsawdd a byd natur wedi cael eu cyhoeddi yng Nghymru). O ystyried cyfraniad dau Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae hefyd yn syndod o bosib mai proffil cymharol isel sydd i ystyriaethau tirlun. Ymhellach, er bod darparu tai i'r dyfodol yn amlwg fel mater allweddol i'r CDS roi sylw iddo, rhoddir llai o sylw i ddarparu tai fforddiadwy ac arbenigol. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r CC yn ddogfen weithdrefnol. Rhoddir sylw digonol i'r materion hyn yn y cyfnodau sydd i ddod o ran cynhyrchu'r CDS ac maent yn derbyn sylw yn y Dogfennau Allweddol a'r Asesiadau Sylfaen o Dystiolaeth yn Atodiad 2. | Nac oes |
| CYF: PCC 4 | O ran manylion, gellid addasu paragraff 4.7 i gyfeirio at y Bil Cynllunio (Cymru) sy'n dod i'r amlwg, a fydd yn hwyluso cadarnhau deddfwriaeth gynllunio yng Nghymru yn y dyfodol. | Sylwadau wedi'u nodi. **Addasir paragraff 4.7 i gyfeirio at y Bil Cynllunio (Cymru) sy'n dod i'r amlwg.** | Oes |
| CYF: PCC 5 | Gellid ychwanegu at baragraff 4.12 ar yr Asesiad Rheoliadau | Sylwadau wedi'u nodi. **Bydd** | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Cynefinoedd i ddweud mwy am yr heriau mae De-orllewin Cymru yn eu hwynebu o ran ansawdd dŵr afonydd | **paragraff 4.12 ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei estyn i gyfeirio at yr heriau ansawdd dŵr afonydd a môr y mae De-orllewin Cymru yn eu hwynebu.** | |
| CYF: PCC 6 | a dylai 4.25 fwy na thebyg gyfeirio at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (sydd â rhai goblygiadau ar y tir). | Sylwadau wedi'u nodi. **Bydd yr adran ARhC yn cyfeirio at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru/faterion ansawdd dŵr a morol.** | Oes |
| CYF: PCC 7 | Cefnogir y cyfeiriad yn 4.18 at 'resymoli' y sylfaen o dystiolaeth ar draws y rhanbarth, fel amcan cyffredinol, ond mae Cyngor Sir Penfro wedi gwneud rhai sylwadau ar y manylion wrth ymateb i ddogfen Atodiad 2 – gweler isod.<br><br>Yn yr adran 'Â phwy bydd y CBC yn ymgynghori', byddai paragraff penodol ar ddarparwyr cyfleustodau a gwasanaethau yn ddefnyddiol. Gallai hynny gynnwys y cwmni dŵr (Dŵr Cymru), darparwyr telathrebu, y Grid Cenedlaethol, cwmnïau trydan a nwy, etc'. Efallai gellid cyfuno hyn â'r darparwyr trafnidiaeth? Mae Cyngor Sir Penfro | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r rheoliadau CDS yn eitha penodol o ran y math o ymgynghorai a phwy ddylai fod yn rhan o'r rhestr Ymgyngoreion Penodol. Mae'r rhestr honno'n cynnwys Dŵr Cymru, cwmnïau cyfleustodau a darparwyr trafnidiaeth. Rhestrwyd y rhain eisoes yn glir ar dudalen 30 o'r Cytundeb Cyflawni. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
| --- | --- | --- | --- |
| | yn nodi bod rhai o'r uchod yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach fel sefydliadau unigol, ond byddai ystyriaeth fwy cyffredinol ac eang yn ddefnyddiol. | | |
| CYF: PCC 6 | Atodiad 2 – Asesiadau'r Sylfaen o Dystiolaeth:<br>Mae Cyngor Sir Penfro yn cefnogi'r awydd cyffredinol i baratoi sylfaen gyson o dystiolaeth ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, yn achos rhai meysydd pwnc, gallai fod angen meddwl ymhellach am yr hyn a gynigir:<br><br>Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAAs) – paratoir y rhain gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn unol â gofynion Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Yn Sir Benfro, oherwydd y cysylltiad rhwng canfyddiadau GTAA a darpariaethau Cynlluniau Datblygu Lleol o ran darparu llety i sipsiwn, teithwyr a siewmyn teithiol, gwneir y gwaith hwnnw ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda'r Cyngor Sir yn arwain oherwydd bod paratoi'r Asesiadau hyn yn swyddogaeth Gwasanaeth Tai yn hytrach na swyddogaeth Gwasanaeth Cynllunio. Mae Cyngor Sir Penfro yn ansicr a oes darpariaeth gyfreithiol addas ar gyfer paratoi | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r llawlyfr CDS drafft yn nodi dau opsiwn eglur ar gyfer GTAA Rhanbarthol. Un GTAA unigol yn cynnwys math a lefel yr angen, gan gynnwys terfynau amser sawl GTAA i'r Awdurdodau Lleol unigol, gyda'r prif gasgliadau o bob un yn cael eu crynhoi mewn un papur pwnc.<br><br>Mae'r llawlyfr yn nodi:<br>Bydd Asesiad(au) Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn rhan o'r sylfaen ranbarthol o dystiolaeth ar gyfer CDS. **Y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o wneud hynny fydd** | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | GTAA rhanbarthol. Os nad oes, gallai papur cefndir i gyfuno deilliannau GTAAs yr Awdurdod Lleol/y Parc Cenedlaethol ar draws y rhanbarth fod yn ddewis amgen addas, er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r CDS. Ceir cyfeiriad hefyd yn y Cytundeb Cyflawni drafft at ddarparu Safleoedd Tramwy, sef agwedd ar y ddarpariaeth sy'n cael ei hystyried yn benodol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | **paratoi un GTAA ar gyfer y rhanbarth cyfan, gan gwmpasu holl gyfnod y cynllun.**<br>Bydd GTAA rhanbarthol yn helpu i gyflawni gwell dealltwriaeth o batrymau teithio ac anghenion llety ar draws awdurdodau lleol, yn enwedig anghenion tramwy. Rhaid i'r GTAA rhanbarthol ddangos yn eglur fath, lefel a therfynau amser anghenion y rhanbarth cyfan, a hefyd bob ACLI sy'n rhan ohono. Bydd GTAA unigol yn sicrhau dull gweithredu cyson ac yn cyflawni arbedion cost ac adnoddau wrth baratoi'r dystiolaeth ac o ran amser/cost archwilio.<br>Nid yw'r canllawiau hyn yn atal GTAAs rhag cael eu cynnal gan ALlau unigol i gefnogi'r CDS. Fodd bynnag, i helpu i | |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | | sicrhau sylfaen eglur o dystiolaeth a deall lefel yr angen o fewn y rhanbarth, dylai'r CBC baratoi papur tystiolaeth/pwnc crynodol sy'n esbonio lefel yr angen a'i fath, a hynny ar gyfer y rhanbarth cyfan a phob ACLI unigol, gan gynnwys amserlenni sy'n dangos pryd bydd angen safleoedd.<br>Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr DoC wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r dogfennau allweddol a sylfaen o dystiolaeth a geir yn Atodiad 2. | |
| CYF: PCC 7 | Asesiadau Marchnad Dai Lleol – mae'n orfodol i awdurdodau lleol baratoi'r rhain bob 5 mlynedd. Cyflwynwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cysondeb o ran eu paratoi ledled Cymru. Eu sylfaen ddeddfwriaethol yng Nghymru yw adran 8 o Ddeddf Tai 1985, ac mae hefyd gysylltiadau ag adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, Deddf Tai (Cymru) 2014, a Deddf | Sylwadau wedi'u nodi. Mae gwaith rhanbarthol eisoes wedi'i gwblhau'n llwyddiannus gan Gyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi bod yn cydweithio'n ddiweddar i gomisiynu Asesiad | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | Cydraddoldeb 2010. Yn Sir Benfro, oherwydd y cysylltiad rhwng canfyddiadau'r LHMA a darpariaethau Cynlluniau Datblygu Lleol o ran darparu tai yn y dyfodol, mae'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac mae'n cynnwys aelodau o Wasanaethau Tai a Chynllunio Cyngor Sir Penfro a'r rhai sy'n gweithio i Wasanaeth Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Nid yw'r Cyngor yn sicr a oes darpariaeth gyfreithiol addas ar gyfer paratoi LHMA rhanbarthol. Os nad oes, gallai papur cefndir i gyfuno deilliannau LHMA yr Awdurdod Lleol/y Parc Cenedlaethol ar draws y rhanbarth fod yn ddewis amgen addas, i lywio'r gwaith o baratoi'r CDS. | Economaidd a Thwf Tai er mwyn llywio'u CDLIAiau eu hunain. Cynhwyswyd Asesiad o Farchnad Dai DoC yn y dogfennau allweddol a'r sylfaen o dystiolaeth a geir yn Atodiad 2. | |
| CYF: PCC 8 | Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau – dogfen Cymru gyfan yw hon, gydag atodiadau ar wahân ar gyfer Gogledd Cymru a De Cymru. Arweinir y gwaith o'i baratoi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cysylltu â gwaith Gweithgorau Agregau Gogledd a De Cymru yn eu tro. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu paratoi 3ydd Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau. Bydd hynny'n nodi'r gofynion o ran darparu safleoedd ar | Sylwadau wedi'u nodi. Byddai'n ymddangos yn rhesymegol dosrannu mwynau yn rhanbarthol. Cynhwyswyd sylfaen o dystiolaeth ar gyfer mwynau yn y dogfennau allweddol a'r sylfaen o dystiolaeth a geir yn Atodiad 2, a bydd hynny'n defnyddio'r dystiolaeth orau | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | sail Awdurdod Cynllunio Lleol, felly nid yw Cyngor Sir Penfro yn sicr a fyddai angen comisiynu gwaith pellach yn rhanbarthol, na pham. Petai angen, gellid cyflwyno casgliadau 3ydd Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol De-orllewin Cymru mewn papur cefndir byr. | sydd ar gael ar gyfer y rhanbarth. | |
| CYF: PCC 9 | Ansawdd Dŵr Afonydd – mae problemau sylweddol iawn yng nghyswllt y mater hwn ar draws Rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae llygredd ffosffad yn effeithio ar rai o'r afonydd gwarchodedig (a rhai afonydd eraill) yn y rhanbarth, ac maent hefyd yn teimlo effaith llygredd a achosir gan Nitrogen Anorganig Hydawdd (DIN). Mae yna hefyd broblemau ansawdd dŵr afon eraill yn effeithio ar safleoedd afonol a morol gwarchodedig a dyfrffyrdd eraill. Bydd angen dealltwriaeth eglur o'r materion hyn ochr yn ochr â pharatoi CDS De-orllewin Cymru, ac o ganlyniad bydd angen am bapur cefndir o leiaf, yn ogystal â'r elfen fapio y sonnir amdani. | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriad at Asesiad Effaith Nitradau, Maetholion Eraill ac Ansawdd Dŵr at y sylfaen o dystiolaeth.** | Oes |
| CYF: PCC 10 | Asesiad Trafnidiaeth Strategol De-orllewin Cymru – mae Cyngor Sir Penfro yn nodi bod hwn wedi'i restru, ond gan fod y CBC eisoes wedi paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, mae'n aneglur pa wybodaeth bellach gallai'r asesiad hwn gyfrannu. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| CYF: PCC 11 | Ynni Adnewyddadwy – dylai'r asesiadau ynni adnewyddadwy lefel uchel arfaethedig gyfeirio at Gynlluniau Ynni Ardal Leol ac at ddarpariaethau Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yng nghyswllt ynni adnewyddadwy. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCC 12 | Gwastraff – rhagwelir y bydd strategaeth ranbarthol De-orllewin Cymru yn cael ei harwain gan ddarpariaethau dogfen Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff – ac y bydd y dull gweithredu rhanbarthol yn cyfuno strategaeth sy'n cyd-fynd â pholisi Cymru a darpariaeth addas o ran cyfleusterau rheoli gwastraff i ymateb i'r anghenion rhanbarthol. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCC 13 | Llesiant<br>Yn ogystal â chymryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyriaeth, dylai'r sylfaen o dystiolaeth yn y CDS gynnwys papur cefndir yn ogystal, yn ymdrin â darpariaethau amrywiol Gynlluniau Llesiant y Siroedd, gan gynnwys yr un ar gyfer Sir Benfro a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. Bydd hynny'n helpu i lywio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDS trwy ddarparu persbectif lleol, yn ogystal ag un Cymru gyfan, ar ddyheadau llesiant. | Sylwadau wedi'u nodi. Gallai'r gwaith hwn gael ei wneud fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. | Nac oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| CYF: PCC 14 | Atodiad 3 – Cynllun Cynnwys y Gymuned<br>Dim sylwadau | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCC 15 | Atodiad 4 – Rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol<br>Mae Cyngor Sir Penfro yn nodi bod *Travelling Ahead* wedi'i restru ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Er nad yw wedi'i restru yng Nghytundeb Cyflawni CDLI2 y Cyngor, mae'r sefydliad hwn bellach yn ymwneud ag adolygiad CDLI Cyngor Sir Penfro, ac mae wedi cynorthwyo'r gymuned sipsiwn a theithwyr, yn ogystal â'r Cyngor, i ymateb i faterion cysylltiedig a darparu llety i sipsiwn a theithwyr yn y dyfodol. Mae Cyngor Sir Penfro yn awgrymu y dylid cynnwys y sefydliad hwn ar gyfer pob awdurdod cynllunio lleol sy'n cyfrannu at y CDS. | Bydd Atodiad 4 yn cael ei gyfuno'n un rhestr o ymgyngoreion ar gyfer y rhanbarth cyn ei gyflwyno'n derfynol i LIC. Mae *Travelling Ahead* eisoes wedi'i gynnwys fel ymgynghorai yn Atodiad 4. | Nac oes |
| CYF: PCC 16 | Atodiad 5 – Prif Swyddfeydd Llywodraeth Leol<br>Dim sylwadau. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCC 17 | Atodiad 6 – Amserlen Fanwl y CDS<br>Dim sylwadau. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: PCC 18 | Atodiad 7 – Asesiad Risg<br>Mae problemau ansawdd dŵr afonydd wedi dod i'r amlwg fel | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir cyfeiriad at nitradau ac ansawdd** | Oes |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| | problem fawr mewn llawer ardal yn Ne-orllewin Cymru. Mae rhoi sylw i'r ymateb cynllunio i lygredd ffosffad a nitrogen anorganig hydawdd mewn afonydd gwarchodedig yn y rhanbarth eisoes wedi achosi oedi sylweddol i gynnydd adolygiadau CDLl gyda golwg ar fabwysiadu. Bellach mae gofynion niwtraliaeth maetholion yn eu lle yn nyfrffordd fewnol Aberdaugleddau, a rhannau o Foryd y Burry a Llwchwr. Mae tystiolaeth newydd neu ymddangosiad problemau newydd yn hyn o beth yn achosi risg sylweddol i gyflawni CDS De-orllewin Cymru, a dyllid cyfeirio at hynny yn yr asesiad risg, gan y gallai achosi oedi neu atal y broses o baratoi'r cynllun. Gallai'r mater hwn olygu bod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDS (y cyfeirir ato yn Atodiad 2) yn hir ac yn gymhleth. Mae profiad diweddar Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin wrth symud ymlaen gyda'u hadolygiadau CDLl yn dangos pwysigrwydd peidio â diystyru arwyddocâd y mater hwn. | **dŵr at yr asesiad risg.** Mae hyn eisoes yn cael ei gwmpasu yn yr asesiad risg o dan "Gofynion ychwanegol sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd, canllawiau cenedlaethol neu dystiolaeth newydd". | |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law. | Amherthnasol | Amh |

| ACLI | SYLWADAU | YMATEB A GWEITHREDU | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | | | |
| | Ni ddaeth sylwadau i law. | Amherthnasol | Amh |

## Tabl 2: Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

| Corff | Sylwadau | Ymateb a Gweithredu | Angen newid y CC? |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Codi** | | | |
| CYF: CG1 | **YNGHYLCH: Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru (CDS) (2026-2051)**<br>Gan gyfeirio at yr uchod, ac yn dilyn rhyddhau'r ddogfen ymgynghori, croesawn y cyfle i gyflwyno sylwadau ar gynnwys y cyhoeddiad.<br>Wedi i Grŵp Pobl a Linc Cymru gael eu cyfuno'n ddiweddar i ffurfio Grŵp Codi, ni yw'r darparwr tai, gofal a chymorth mwyaf yng Nghymru, ac mae'r grŵp cyfun yn rheoli dros 25,000 o gartrefi ar draws Cymru. Mae gennym ni gynlluniau twf sylweddol i gyflwyno rhagor o gartrefi safonol ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau a lleoliadau, ac mae gennym gynlluniau pellach i ehangu ein darpariaeth gofal a chymorth er mwyn ymateb i anghenion y dyfodol.<br>Ymhellach, rydym yn gweithio o fewn yr holl awdurdodau sy'n rhan o ardal CBC/CDS De-orllewin Cymru a'n gobaith yw parhau i gyflwyno cartrefi oddi mewn i'r awdurdodau hynny yn y dyfodol. Rydym ni'n cyfrannu'n weithredol at yr holl fframweithiau polisi cysylltiedig â | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chynllunio ar draws ardal y CDS, a byddem yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan bwysig o gyflawni gobeithion y CDS.<br>O ran y Cynllun Cyflawni arfaethedig, rydym yn cefnogi'r cyfnodau ymgynghori allweddol a gynigir, sydd i'w gweld yn dilyn canllawiau'r llawlyfr CDS.<br>Gobeithiwn fod y sylwadau uchod yn ddefnyddiol, a byddem yn croesawu cyfle i roi mewnbwn/sylwadau pellach wrth i'r Cynllun symud ymlaen. | | |
| **RNIB Cymru** | | | |
| CYF: RNIB1 | Mae RNIB Cymru yn croesawu'r cyfle i roi adborth ar y Cynllun Datblygu Strategol Drafft. Rydym wedi nodi'r meysydd yr ydym ni'n teimlo bod angen eu cryfhau ym Mhennod 5: Cynlluniau Cynnwys y Gymuned. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF: RNIB2 | Yng nghyswllt 5.3, hoffem dynnu sylw at y rhwystrau unigryw mae pobl ddall a'r rhai sydd â golwg gwan yn eu hwynebu wrth fynychu sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd ac wrth ymateb i ymgyngoriadau.<br><br>Mae pobl ddall a rhai â golwg gwan yn dweud wrthyn ni'n gyson eu bod yn methu ymateb i ymgyngoriadau oherwydd nad yw dogfennau ar gael yn y fformat amgen mae arnynt ei angen, p'un ai print bras, braille neu sain yw hynny, ac nad yw dogfennau digidol yn cydweddu | Sylwadau wedi'u nodi. Mae ein holl ddogfennau wedi cael eu cynhyrchu mewn fformat hygyrch, gan fodloni'r gofynion hygyrchedd diweddaraf er mwyn cwmpasu cynulleidfa ehangach. Rydym wedi ceisio sicrhau mynediad i bawb, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Mae ein | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | â thechnoleg darllenwyr sgrîn.<br><br>Ceir rhwystrau eraill pan gynhelir ymgyngoriadau ar-lein yn unig. Er y gall technoleg fod yn fodd i rymuso a chynnwys pobl ddall a rhai â golwg gwan, a chaniatáu iddynt fod yn annibynnol, nid yw 28 y cant o bobl sydd wedi colli eu golwg byth yn defnyddio'r rhyngrwyd, neu nid oes ganddynt fynediad iddo. Mae hyn yn uwch na'r gyfran o bobl sydd ag anableddau eraill (13 y cant) a phobl heb anabledd (4 y cant).[1] Mae cysylltiad agos rhwng eithrio digidol ac oed, ac nid yw 47 y cant o bobl 75 oed a throsodd sydd wedi colli eu golwg byth yn defnyddio'r rhyngrwyd, neu maent heb fynediad iddo.[2] Mae hyn yn cymharu â 28 y cant o bobl heb anabledd yn yr un grŵp oedran.<br><br>Mae llawer o bobl yn colli eu sgiliau digidol ar ôl colli eu golwg oherwydd diffyg gwybodaeth am nodweddion hygyrchedd a cholli hyder.[3] Mae'r rhai sydd ar-lein yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau digidol lefel is a defnyddio technoleg yn llai aml. Dim ond 69 y cant o bobl sydd wedi colli eu golwg sydd â sgiliau digidol lefel sylfaenol, o gymharu â 90 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig.[4] | dogfennau hygyrch yn golygu bod pobl â nam ar eu golwg sy'n defnyddio darllenwyr sgrîn a chwyddwyr, rhai â nam ar eu clyw a rhai ag anableddau cydsymud (defnyddio bysellfwrdd) yn gallu cael mynediad at yr un wybodaeth â phawb arall. Mae hynny'n sicrhau mynediad cyfartal at gynnwys, nid y tudalennau gwe yn unig, ond hefyd y deunyddiau sydd gennym y mae modd eu lawrlwytho. Bydd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig ag amserlen y CDS yn cael eu gwneud yn hygyrch. Byddwn ni'n parhau i ymdrechu i sicrhau gwelliannau, ond mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hynny â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. | |

[1] (Understanding Society: Technology (RNIB, 2023)
[2] (Understanding Society: Technology (RNIB, 2023)
[3] Online Today: Final evaluation (RNIB, 2018).
[4] Lloyds Bank UK Consumer Digital Index 2023 (Lloyds Bank, 2023).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod modd trefnu galwad ffôn yn ystod oriau'r swyddfa. Os na fydd pobl ddall a rhai â golwg gwan yn ymgysylltu, cânt eu hatal rhag cyfranogi yn eu cymuned, ac o ganlyniad ni fydd ganddynt fynediad cyfartal at wasanaethau allweddol, megis addysg, cyflogaeth ac apwyntiadau iechyd.<br><br>Mae RNIB Cymru o'r farn bod angen gwneud newidiadau bach i'r iaith a geir yn y ddogfen. Er enghraifft, mae adran 5.32 yn cyfeirio at 'bobl ag anableddau'. Byddem ni'n annog defnydd o'r term 'pobl anabl', i adlewyrchu iaith y Model Cymdeithasol o Anabledd.<br><br>Rydym ni'n annog cyfeirio at y model cymdeithasol o anabledd ar hyd y ddogfen, gan fod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrechion dilys i wreiddio'r model hwnnw. Datblygwyd y model gan bobl anabl ac mae'n disgrifio'r ffaith mai rhwystrau mewn cymdeithas sy'n gwneud pobl yn anabl, yn hytrach nag unrhyw nam neu wahaniaeth sydd ganddynt. Mae'r iaith a ddefnyddir yng nghyswllt anabledd yn eithriadol o bwysig, ac nid yw termau megis 'pobl ag anableddau' ac 'anodd eu cyrraedd' yn adlewyrchu'r newid hwn.<br><br>Yn ddiweddar rhannodd tîm Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ddogfen ganllaw ar gyfer Mapiau Teithio Llesol gyda Swyddogion Teithio Llesol Awdurdodau Lleol, gan egluro ffyrdd cynhwysol o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymgysylltu â phob carfan o bobl. Rydym wedi cynnwys rhannau o'r ddogfen hon isod oherwydd ei bod yn amlygu enghreifftiau da o ymgysylltu ystyrlon a hygyrch, yn ogystal â iaith gynhwysol. | | |
| CYF: RNIB3 | **Atodiad 3: Ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysol ATNM**<br><br>**1. Trosolwg**<br>Mae ymgynghori cynhwysol, yn enwedig pan ddefnyddir arolwg ar-lein seiliedig ar fap yn brif ddull, yn galw am ddylunio gofalus a chyfathrebu clir er mwyn sicrhau bod ystod eang o bobl yn gallu cyfranogi'n ystyrlon.<br>Mae ymgysylltu cynhwysol yn helpu i sicrhau bod:<br>• Awdurdodau lleol yn cymhwyso egwyddorion craidd dull gweithredu Teithio i Bawb Llywodraeth Cymru, yn enwedig egwyddor 'Ymwneud', trwy ymgysylltu'n weithredol â phobl sy'n wynebu rhwystrau, gan sicrhau bod ganddynt ran ystyrlon yn y gwaith o lunio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth.<br>• Pobl o bob oed, gallu a chefndir yn gallu cyrchu a deall yr ymgynghoriad.<br>• Rhwystrau i gyfranogiad (digidol, ieithyddol, corfforol, diwylliannol) yn cael eu nodi ac yn derbyn sylw.<br>• Ymgais benodol i geisio adborth gan grwpiau a dangynrychiolir neu nas clywir ganddynt yn aml. | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu rhwng tîm y CDS a thîm y CTRh/trafnidiaeth. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Amrywiol fformatau a sianeli yn cael eu defnyddio i gyrraedd pobl lle maent. | | |
| CYF: RNIB4 | **2. Offer**<br>Mae’r rhestr isod, o ganllawiau’r Ddeddf Teithio Llesol, yn nodi’r offer y gall awdurdodau lleol eu cynnig yn lle’r map ar-lein o’r arolwg. Mae’n bwysig cyfleu’r neges bod ffordd glir i bobl ofyn am offer os bydd angen hynny arnynt, megis e-bost cyswllt ar wefan yr arolwg.<br>• Cynnal digwyddiadau mewn cyrchfannau allweddol (e.e. ysgolion, gweithleoedd, ardaloedd siopa, hybiau trafnidiaeth)<br>• Archwiliadau stryd cymunedol<br>• Grwpiau ffocws cerdded, olwyno a beicio<br>• Cyfweliadau lled-strwythuredig<br>• Archwilio llwybrau beicio<br>• Posteri a hysbysiadau safle ar hyd llwybrau, gyda chyfarwyddiadau cyfranogi clir<br>• Mynychu digwyddiadau cyhoeddus (e.e. diwrnodau agored, diwrnodau hwyl i’r teulu, ffeiriau’r glas mewn prifysgolion)<br>• Ymgysylltu â grwpiau a fforymau sydd eisoes yn bodoli (e.e. grwpiau mynediad lleol)<br>• Digwyddiadau ar y cyfryngau lleol a’r radio<br>• Offer ymgysylltu digidol ac o bell<br>• Hyrwyddo arolygon ar-lein trwy’r cyfryngau cymdeithasol neu godau QR | Sylwadau wedi’u nodi. Byddwn yn archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu rhwng tîm y CDS a thîm y CTRh/trafnidiaeth. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Marchnata digidol wedi'i dargedu (e.e. hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol)<br>• Platfformau ymgynghori penodol ar-lein, gydag offer mapio rhyngweithiol<br>• Arolygon ffôn a dosbarthu llythyron / taflenni<br>• Digwyddiadau a arweinir ar y cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau fforwm ar-lein yn targedu defnyddwyr teithio llesol presennol neu bosibl | | |
| CYF: RNIB5 | **3. Enghreifftiau o arfer da**<br>**4.1. Ymgynghoriad ATNM Torfaen 2025**<br>Yn ddiweddar cynhaliodd Torfaen gyfarfod llwyddiannus gyda chynrychiolydd o Sight Cymru i drafod yr heriau hygyrchedd mae trigolion â nam ar eu golwg yn eu hwynebu. Amlygodd y cynrychiolydd sawl mater oedd yn codi'n gyson, yn cynnwys:<br>• Biniau gwastraff ac ailgylchu yn rhwystr ar y palmant<br>• Fframiau A yn rhwystr ar lwybrau cerdded<br>• Anawsterau wrth fannau croesi i gerddwyr<br>• Llystyfiant bargodol<br>• Arwyneb anwastad ar lwybrau troed<br>Yn ystod y cyfarfod, nodwyd lleoliadau penodol, a defnyddiodd Tîm Teithio Llesol Torfaen y system DMW i gofnodi pob pryder. Darllenwyd yr hyn a nodwyd yn ôl i'r cynrychiolydd ei gadarnhau cyn ei gyflwyno, a chafwyd adborth cadarnhaol. | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu ymhlith timau eraill yr ACLI. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynigiodd Torfaen drefnu ymweliadau safle ar gais i gerdded ar hyd y llwybrau yr effeithiwyd arnyn nhw. Ar ben hynny, mynegodd y tîm eu parodrwydd i roi Sight Cymru mewn cysylltiad â chymheiriaid mewn awdurdodau cymdogol petai materion tebyg yn codi y tu allan i awdurdodaeth Torfaen.<br>Mae'r cyfarfod hwn yn adeiladu ar ymgysylltu blaenorol, gan gynnwys taith ar hyd llwybr gyda chynrychiolydd arall o Sight Cymru a galwadau ffôn gydag aelodau eraill o'r sefydliad. Pryder cyffredin a godwyd oedd gosod biniau ar y palmant ar ddiwrnodau casglu, yn enwedig yng nghymunedau'r cymoedd, lle mae'r palmant yn gul ac eiddo yn aml heb fynediad o'r cefn, sy'n golygu bod gosod biniau yn rhwystr sylweddol.<br>I sicrhau ymgysylltiad cynhwysol, mae Torfaen wedi cynnal ystod o weithgareddau yn cynnwys:<br>• Cyfarfodydd Microsoft Teams<br>• Ymgynghori dros y ffôn<br>• Ymweliadau safle<br>• Gweithdai galw heibio<br>Pam mae hyn yn Bwysig:<br>Nod yr ymdrechion hyn yw darparu ar gyfer trigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio'n lleol a rhoi polisi ar waith. | | |
| CYF: RNIB6 | **4.2. Dull gweithredu "Llun mewn Geiriau" Caerdydd** | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu dull cynhwysol, ystyriol o gyflwyno cynigion seilwaith trwy greu dogfen “llun mewn geiriau”. Naratif iaith glir, seiliedig ar y synhwyrau yw hwn, sy’n disgrifio sut bydd cynllun yn edrych ac yn teimlo mewn bywyd go iawn. Bwriad y dull gweithredu hwn yw gwneud cynlluniau technegol yn hygyrch i’r canlynol:<br>• Pobl anabl, gan gynnwys y rhai sydd â nam ar eu golwg<br>• Pobl ag anawsterau gwybyddol neu ddysgu<br>• Unrhyw un sy’n cael bod mapiau, lluniadau, neu iaith dechnegol yn anodd eu dehongli<br>Prif Nodweddion y Dull Gweithredu:<br>• Iaith Glir, Ddisgrifiadol: Mae’n osgoi jargon ac yn defnyddio termau pob dydd i esbonio’r cynllun.<br>• Manylion Synhwyraidd: Mae’n disgrifio gwead, sŵn ac ymwybyddiaeth gorfforol (e.e. palmant cyffwrdd, stribedi dwndwr) i helpu defnyddwyr i ddychmygu a deall yr amgylchedd.<br>• Profiad Cam wrth Gam: Mae’n cerdded y darllenydd trwy sut byddai cerddwr neu feiciwr yn profi’r gofod, o nesáu at y groesfan i’w defnyddio.<br>• Rhoi’r Defnyddiwr yn y Canol: Mae’n canolbwyntio ar sut mae gwahanol grwpiau: plant, defnyddwyr cadair olwyn, beicwyr, pobl â phramiau, yn ymwneud â’r seilwaith. | archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu ymhlith timau eraill yr ACLI. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cyd-destun Diogelwch a Hygyrchedd: Mae'n esbonio sut mae nodweddion dylunio yn gwella diogelwch, gweledEdd, a hwylustod defnydd i ddefnyddwyr mwy bregus y ffordd.<br>Deunyddiau Cefnogi:<br>Mae Caerdydd hefyd wedi cynhyrchu rhestr o dermau a disgrifiadau sy'n helpu'r darllenwyr i ddeall cysyniadau anghyfarwydd a iaith dechnegol.<br>Pam mae hyn yn Bwysig:<br>Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu deall cynigion a gwneud sylwadau arnynt, yn enwedig y rhai sy'n aml yn cael eu cau allan o fformatau ymgynghori traddodiadol. Mae'n cefnogi ymgysylltu cynhwysol ac yn helpu i greu seilwaith sy'n adlewyrchu anghenion pob defnyddiwr. | | |
| CYF: RNIB7 | **4.3. Mapiau Cyffwrdd Sir Benfro**<br>Mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda'r RNIB i dreialu mapiau cyffwrdd yn Saundersfoot.<br>Pam mae hyn yn Bwysig:<br>Mae'r fenter hon yn cefnogi ymgysylltiad cynhwysol trwy wneud gwybodaeth ofodol yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg ac eraill a allai gael trafferth gyda mapiau traddodiadol. Trwy ddarparu mapiau cyffwrdd, mae Sir Benfro yn helpu defnyddwyr i ddeall llwybrau teithio llesol arfaethedig yn well a'u defnyddio. | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu ymhlith timau eraill yr ACLI. | Nac oes |
| CYF: RNIB8 | **4.4 Ystyriaethau ymarferol ar gyfer digwyddiadau wyneb yn** | Sylwadau wedi'u nodi. Byddwn yn | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **wyneb**<br>Mae panel Mynediad a Chynhwysiant Trafnidiaeth Cymru wedi awgrymu rhai ystyriaethau ymarferol ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb, a nodir isod.<br>4.4.1. Hygyrchedd y Lleoliad ac Ystyriaethau Ymarferol<br>• Arwyddion a Chyfeirbwyntiau: Mae arwyddion clir y tu allan i leoliadau (e.e. "Croeso i Bawb") a chyfarwyddiadau ymarferol fel "ar bwys y Tesco bach" yn helpu pobl i gael hyd i'r ffordd a theimlo eu bod wedi'u gwahodd.<br>• Hygyrchedd Corfforol: Sicrhau bod lleoliadau ar lwybrau bws, wedi'u cysylltu ag amserlenni (ddim yn gorffen ar ôl y bws olaf), â mynedfeydd hygyrch, ac ystyried pa ddrws sy'n cael ei ddefnyddio. Bod yn bresennol y tu allan i dywys pobl i mewn.<br>• Sensitifrwydd Cynllun: Osgoi ynysu cyfranogwyr (e.e. rhai cadeiriau olwyn yn methu mynd yn ddigon agos at y byrddau gwybodaeth); sicrhau trefniadau eistedd cynhwysol.<br>4.4.2. Hwyluso Cefnogol<br>• Meithrin Hyder: Neilltuo hwyluswyr ar gyfer y byrddau, i annog a chefnogi lleisiau tawelach yn ofalgar<br>• Cefnogaeth Un-i-Un: Cynnig cymorth unigol, yn enwedig i'r rhai sydd â namau synhwyraidd deuol<br>• Gofyn, Nid Rhagdybio: Defnyddio iaith gynhwysol a gofyn i bobl sut hoffen nhw ymgysylltu. | archwilio unrhyw awgrymiadau arfer da mae modd eu rhannu ymhlith timau/sefydliadau eraill yr ACLI. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 4.4.3. Ymgysylltu sy'n cael ei arwain gan y Gymuned ac sy'n Ddiwylliannol Ymwybodol<br>• Fforymau Lleol: Mae Fforwm Mynediad Torfaen yn dangos gwerth cysylltiadau personol a dilyniant wrth ymgysylltu.<br>• Hybiau Cymunedol: Mae cynnal digwyddiadau mewn mannau cyfarwydd, lle mae pobl yn gyfforddus, yn helpu i oresgyn eithrio digidol ac yn meithrin ymddiriedaeth.<br>• Sensitifrwydd Diwylliannol: Cydnabod bod dulliau ymgysylltu yn amrywio ar draws timau awdurdodau lleol; teilwra dulliau gweithredu yn unol â hynny. | | |
| **Glandŵr Cymru** | | | |
| CYF: GC1 | Diolch am eich ymgynghoriad ar y ddogfen uchod.<br>Ni yw'r elusen sy'n gofalu ac yn bywiogi 76 milltir o gamlesi yng Nghymru. Mae ein dyfrffyrdd yn cyfrannu at iechyd a llesiant cymunedau ac economïau lleol, gan greu mannau deniadol, cysylltiedig i fyw, gweithio, gwirfoddoli a threulio amser hamdden ynddynt. Mae'r asedau hanesyddol, naturiol a diwylliannol hyn yn rhan o'r rhwydwaith seilwaith glaswyrdd strategol a lleol, ac yn cysylltu cymunedau trefol a gwledig yn ogystal â chynefinoedd. Trwy ofalu am ein dyfrffyrdd a hybu defnydd ohonynt, credwn y gallwn wela llesiant Cymru. Enw'r corff yw Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Camlesi ac Afonydd yng Nghymru, ac rydym ni'n ymgynghorai statudol yn y broses Rheoli Datblygu. Rydym ni felly yn croesawu'r cyfle i roi mewnbwn ar faterion cysylltiedig â pholisi cynllunio er mwyn sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn cael eu diogelu, eu gwarchod a'u gwella oddi mewn i fframwaith polisi priodol.<br>Isod cewch hyd i ymateb Glandŵr Cymru i Ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ar Gytundeb Cyflawni Drafft y Cynllun Datblygu Strategol. Gobeithiwn fod y sylwadau a wnaed yn eglur ac o gymorth, ac y byddwch yn rhoi sylw i'r pwyntiau hyn. | | |
| CYF: GC2 | Sylwadau cyffredinol:<br>Dylai ein dyfrffyrdd gael eu cydnabod fel mater o drefn yn y ddogfen bolisi, fel seilwaith glas/gwyrdd pwysig, sy'n gallu bod yn gatalydd ar gyfer adfywio; adnodd teithio cynaliadwy ar gyfer cymudo a hamdden; gwasanaeth iechyd naturiol sy'n gweithredu fel campfa las ac sy'n cynnal gweithgarwch awyr agored corfforol iach; adnodd ecoleg a bioamrywiaeth; adnodd twristiaeth, diwylliant, chwaraeon, hamdden ac adloniant; tirlun treftadaeth cyfrannwr at gyflenwi a throsglwyddo dŵr, draenio a rheoli llifogydd. Mae'r rhwydwaith dyfrffyrdd yn rhan o'r amgylchedd hanesyddol, cymeriad a ffocws diwylliannol a chymdeithasol yr ardaloedd Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod.<br>Ein gweledigaeth yw: bod dyfrffyrdd byw yn trawsffurfio lleoedd ac yn cyfoethogi bywydau. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd a | Sylwadau wedi'u nodi. Rhoddir sylw i hyn trwy gyfnodau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pherfformiad y rhwydwaith dyfrffyrdd mewndirol sydd o dan ein perchnogaeth a'n rheolaeth ac ansawdd y gymdogaeth a'r amgylchedd y mae ein camlesi a'n hafonydd yn llifo trwyddynt.<br>Mae'r budd i'r cyhoedd yn sgîl camlesi, afonydd a dociau yn ei dro yn dibynnu'n sylweddol ar eu hiechyd a'u perfformiad. Mae dyfrffordd sy'n tangyflawni fel arfer yn symptom o fethiant economaidd a chymdeithasol y gymdogaeth y mae'n llifo drwyddi.<br><br>Gall ein dyfrffyrdd gynnig manteision o ran llesiant cymunedau lleol. Credwn fod ffurfio polisi cynllunio sy'n nodi ac yn cynnwys dulliau o hybu mynediad i'n rhwydwaith yn hynod bwysig er mwyn helpu i wireddu manteision cadarnhaol ein rhwydwaith i gymunedau lleol.<br>Ar bob lefel ofodol mae angen cryfhau polisi cynllunio presennol er mwyn darparu fframwaith polisi cynllunio cadarn sy'n cynnal camlesi, afonydd a dociau fel thema polisi trosfwaol; gan gydnabod gwerth camlesi, afonydd a dociau, o ran:<br>• bod yn fath ar seilwaith strategol a lleol sy'n cyflawni sawl swyddogaeth (yn cynnwys trafnidiaeth gynaliadwy, man agored a seilwaith gwyrdd, perygl llifogydd, draenio a chyflenwad dŵr), y mae pob math a graddfa o ddatblygiad yn debygol o effeithio arno<br>• eu rolau'n gwella'r amgylchedd ffisegol, cyfleoedd i bobl a'r economi ehangach<br>• cefnogi eu gallu i gyflwyno manteision economaidd, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol a’r genedl gyfan<br>• eu cyfraniad at gefnogi’r newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol<br>• y manteision i’r cyhoedd, gan gynnwys iechyd a llesiant pobl a all ddod ac sydd yn dod yn sgîl ein camlesi, ein hafonydd a’n dociau<br>• cefnogi gwaith yn y dyfodol i ddatblygu, adfywio a gwella camlesi, afonydd a dociau<br>• gwarchod gwerth treftadaeth, amgylcheddol a hamdden camlesi, afonydd a dociau, a’u diogelu rhag datblygu amhriodol<br>• sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y rhwydwaith dyfrffyrdd mewndirol, eu coridorau a’r cymunedau cyfagos | | |
| CYF: GC3 | Sylwadau manwl<br>Atodiad 2 – Dogfennau Allweddol ac Asesiadau’r Sylfaen o Dystiolaeth<br>Yn Atodiad 2 ceir rhestr o ddogfennau a sylfaen o dystiolaeth a ddarperir yn y man wrth i’r cynllun fynd rhagddo. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn croesawu ymwneud pellach â materion sy’n ymwneud â<br>Seilwaith Gwyrdd<br>• Cynllun Cyflawni Seilwaith<br>• Asesiad Canlyniadau Strategol Llifogydd (SFCA). Efallai byddwn ni’n gallu darparu gwybodaeth i lywio’r SFCA ar gyfer ein | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dyfrffyrdd.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni rôl allweddol fel sefydliad a chorff treftadaeth glaswyrdd, a dylid cydnabod ein dyfrffyrdd mewn seiliau tystiolaeth a pholisïau cynllunio strategol, cydnerthedd hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd a llesiant, a chysylltedd rhanbarthol. Byddem yn croesawu ymgysylltu cynnar ar y materion hyn wrth i ddogfennau gael eu paratoi. | | |
| CYF: GC4 | Atodiad 4<br>Mae pob ACLI wedi darparu rhestr o'u hymgyngoreion.<br>Mae rhannau o Gamlas Abertawe yn Abertawe ac yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid ydym yn berchen ar gamlesi Nedd a Thenant nac yn gofalu amdanynt. Nodir bod Glandŵr Cymru wedi'i restru fel Ymgynghorai Cyffredinol a bod y Grwpiau adfer perthnasol (Cymdeithas Camlas Abertawe a Chamlas Nedd a Thenant) hefyd wedi'u cynnwys.<br>Rydym yn berchen ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu ac yn gofalu amdani yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nodir nad yw Glandŵr Cymru wedi'i restru fel ymgynghorai o gwbl. Rhagdybiwn mai llithriad yw hyn yn hytrach na rhywbeth bwriadol, gan ein bod fel arfer yn ymgynghorai ar faterion polisi a cheisiadau cynllunio. Gofynnwn am gael ein cynnwys yn y rhestr ymgyngoreion. Byddem yn croesawu trafodaethau pellach gydag Awdurdod y Parc | Sylwadau wedi'u nodi. Ymgynghorwyd â phob ACLI/APC wrth lunio rhestr Ymgyngoreion Cyffredinol Atodiad 4. Bydd Atodiad 4 yn cael ei grynhoi'n un rhestr a ddiweddarwyd ar gyfer y Cytundeb Cyflawni Terfynol. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cenedlaethol os nad ydynt am i ni gael ein hychwanegu at y rhestr. Nid ydym yn berchen ar unrhyw gamlas na llwybr adfer camlas yn Sir Benfro na Sir Gaerfyrddin nac yn gofalu amdanynt. Nodir bod Glandŵr Cymru wedi'i gynnwys fel Ymgynghorai Cyffredinol er nad ydym yn berchen ar gamlesi nac yn cynnal camlesi yn yr ardaloedd hyn. Nid oes llwybrau adfer camlesi trwy'r ardaloedd hyn. Gofynnwn am gael ein tynnu oddi ar y rhestr ymgyngoreion. Byddem yn croesawu trafodaethau pellach gyda'r Awdurdodau Lleol hyn os ydynt am ein cadw ar y rhestr. Nid yw'r sylwadau uchod yn peryglu unrhyw faterion pellach y gellid eu codi'n ddiweddarach wrth i'r cynllun/ddogfen ddod i'r amlwg. | | |
| **PAVS – Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro** | | | |
| CYF: PAVS1 | Diolch am eich e-bost yn gwahodd ymatebion ymgynghori i Gytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru.<br><br>Rwy'n ysgrifennu ar ran pedwar Cyngor Gwirfoddol Siroedd Penfro, Caerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.<br><br>Gofynnir i chi ychwanegu'r canlynol at eich cronfa ddata ymgynghori gan ein bod yn dymuno cael ein cynnwys yn y broses wrth symud ymlaen. | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir y pedwar cyswllt a awgrymwyd at gronfa ddata ymgynghori'r CDS ac Atodiad 4.** | Oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | jessica.bickerton@pavs.org.uk<br>marie.mitchell@cavs.org.uk<br>amanda_carr@scvs.org.uk<br>tonyp@nptcvs.org.uk | | |
| CYF: PAVS2 | Rydym ni'n cynrychioli'r sector gwirfoddol a chymunedol ym mhob Sir, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau ac unigolion. Deuwn ag ehangder a dyfnder gwybodaeth a mewnwelediad aruthrol o'r cymunedau lle rydym ni'n gweithio. Ar y sail honno, rydym ni'n awyddus i chwarae rhan weithredol yng Nghynllun Cynnwys y Gymuned, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Strategol yn adlewyrchu ac yn crynhoi'n briodol uchelgais a phersbectif unigolion a chymunedau.<br><br>Er enghraifft:<br><br>• rydym yn cynnal ymgyngoriadau, cydgynhyrchu ac ymgysylltiad cymunedol<br>• rydym yn cynnal fforymau a rhwydweithiau cyrff trydydd sector, gan gynnwys yn y sector trafnidiaeth, y sector llesiant, iechyd a gofal cymdeithasol, gyda sefydliadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd<br>• rydyn ni'n cydweithio'n agos â mentrau cymdeithasol sy'n | Sylwadau wedi'u nodi. Ymgynghorwyd â phob ACLI/APC wrth lunio rhestr Ymgyngoreion Cyffredinol Atodiad 4. Bydd Atodiad 4 yn cael ei grynhoi'n un rhestr a ddiweddarwyd ar gyfer y Cytundeb Cyflawni Terfynol. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithredu mewn ystod eang o sectorau ac yn eu cefnogi<br><br>Rydym yn aelodau o'n BGCau perthnasol ac yn cydweithio'n agos trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ein Byrddau Iechyd, felly rydym yn hen gyfarwydd â chyflwyno persbectif strategol a gweithrediadol i gyd-destunau polisi cyhoeddus. Ar ben hynny, rydym yn cydweithio'n agos ag ystod o bartneriaid sector preifat, gan gynnwys trwy reoli Cronfeydd Cymunedol.<br><br>O ran y cynllun ymgynghori a gyflwynwyd gennych, rydym yn awyddus i weithio gyda chi i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r Pum Ffordd o Weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn adlewyrchu ymrwymiadau'r cynllun i ymgysylltu a gwrando ar leisiau nas clywir yn aml. Mae'r cynllun yn ddiffygiol o ran manylion 'sut' rydych yn bwriadu ymgynghori ag ystod mor eang o ymgyngoreion posibl, felly byddem yn croesawu cyfle i drafod ymhellach. DS mae eich rhestr ymgynghori gyffredinol yn cynnwys llawer o sefydliadau/grwpiau sydd wedi peidio â bodoli, felly bydd gweithio trwy gyrff trosfwaol fel ni yn hanfodol. | | |
| CYF: PAVS3 | Hoffem weld y cytundeb cyflawni yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau hyfyw fel sylfaen hollbwysig ac elfen sy'n cydweddu'n allweddol â thwf economaidd. A hyderwn y bydd y cytundeb cyflawni yn cynnwys ffocws ar yr economi lesiant, yr angen am ddarpariaeth | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iechyd a gofal cymdeithasol (preifat a chyhoeddus), yn arbennig yng nghyd-destun demograffeg sy'n prysur heneiddio a lefelau uchel o dlodi/amddifadedd ar draws ein pedair Sir.<br><br>Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â chi ynghylch y gwaith pwysig hwn ac rydym yn barod i gwrdd â'ch tîm i drafod ymhellach. | | |
| **PACTO – Cymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro** | | | |
| CYF: PACTO1 | **1. Cyflwyniad**<br>Mae PACTO yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r **Cytundeb Cyflawni Drafft (CC)** ar gyfer paratoi **Cynllun Datblygu Strategol (CDS) De-orllewin Cymru**. Rydym yn cydnabod y CDS fel offeryn rhanbarthol allweddol a fwriedir i alinio cynllunio defnydd tir, ffyniant economaidd, cynllunio trafnidiaeth a datblygu cynaliadwy ar draws pedair sir a dau Barc Cenedlaethol De-orllewin Cymru.<br>Mae'r CC yn amlinellu amserlen, strwythur llywodraethu a fframwaith ymgynghori clir ar gyfer datblygu'r CDS, ac mae PACTO yn cefnogi'n bendant yr ymrwymiad i **ymgysylltu cynnar, ystyrlon a chynhwysol** ar hyd y broses o greu'r cynllun.<br>PACTO yw'r corff sy'n cydlynu trafnidiaeth gymunedol yn Sir Benfro, ac felly rydym ni'n cynrychioli llu o weithredwyr a channoedd o wirfoddolwyr sy'n cefnogi miloedd o drigolion, ac rydym mewn sefyllfa | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | unigryw i fedru cyfrannu tystiolaeth a mewnwelediad ynghylch symudedd gwledig, heriau hygyrchedd, a gwirioneddau bywyd go iawn anfanteision trafnidiaeth. | | |
| CYF: PACTO2 | **2. Sylwadau Cyffredinol ar y Cytundeb Cyflawni**<br>Mae PACTO yn croesawu'r ffaith bod y CC yn cydnabod y canlynol:<br>• Yr angen am ymgysylltu cyson, strwythuredig â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, sefydliadau sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol ar draws yr holl gyfnodau paratoi.<br>• Yr ymrwymiad i ymgysylltiad dwyieithog, hygyrch a chynhwysol, gan gynnwys ar gyfer grwpiau gwarchodedig a chymunedau anodd eu cyrraedd.<br>• Integreiddio'r CDS â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, a strategaethau rhanbarthol ehangach.<br><br>Fodd bynnag, credwn fod cyfleoedd i gryfhau'r Cytundeb Cyflawni fel bod anghenion symudedd trigolion gwledig – yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig iawn o ran trafnidiaeth megis rhannau helaeth o Sir Benfro – yn cael eu cydnabod yn llawn a'u cynnwys yn y sylfaen o dystiolaeth, y weledigaeth strategol a'r deilliannau gofodol. | Sylwadau wedi'u nodi. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw yng nghyfnodau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol. | Nac oes |
| CYF: PACTO3 | **3. Pwyntiau Penodol ar gyfer Cryfhau'r CC Drafft**<br>**3.1 Cydnabod Trafnidiaeth Gymunedol yn Benodol fel** | Mae'r rheoliadau CDS yn eitha penodol o ran y math o ymgynghorai | Oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhanddeiliad Strategol**<br>Mae PACTO yn croesawu'r cadarnhad yn Atodiad 4 bod PACTO wedi'i gynnwys ar restr Cyrff Ymgynghori Cyffredinol Sir Benfro. Gofynnwn am gryfhau'r gydnabyddiaeth hon o fewn y CC ei hun i adlewyrchu rôl ranbarthol y ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol ar draws ardaloedd gwledig.<br>Er bod CCG yn nodi "cyrff ymgynghori cyffredinol", gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl a'r rhai sydd o dan anfantais, **ni chyfeirir yn benodol at** PACTO a'n **sefydliadau trafnidiaeth gymunedol** yn y rhestr o randdeiliaid neu ymgyngoreion statudol.<br>**Cais PACTO:** Bod cyfeiriad penodol at *sefydliadau trafnidiaeth gymunedol* sydd eisoes yn bodoli yn:<br>• Y rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol.<br>• Y fframwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer cyfnodau'r sylfaen o dystiolaeth, y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau.<br>• Unrhyw weithgorau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, hygyrchedd, cynhwysiant cymdeithasol neu symudedd gwledig.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfraniad y sector yn cael ei ddiystyru mewn proses a fydd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth trafnidiaeth a hygyrchedd rhanbarthol dros y 25 mlynedd nesaf. | a phwy ddylai fod yn rhan o'r rhestr Ymgyngoreion Penodol. **Fodd bynnag, mae PACTO wedi cael ei ychwanegu at y rhestr o ymgyngoreion Penodol yn Atodiad 4.** | |
| CYF: PACTO4 | **3.2 Sicrhau bod Hygyrchedd Gwledig yn cael ei Wreiddio yn y** | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r CC yn | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Sylfaen o Dystiolaeth**<br>Mae'r CC yn nodi'n briodol yr angen am sylfaen gadarn a chymesur o dystiolaeth, ac am ystyried popeth sy'n sbarduno newid gofodol ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd **nid oes cyfeiriad penodol at hygyrchedd gwledig**, anghenion symudedd cymunedol, na phatrymau teithio unigryw ardaloedd lle mae lefelau ynysu yn uchel. | ddogfen weithdrefnol sy'n nodi sut cynhyrchir y cynllun, pwy fydd yn rhan o hynny, a faint o amser a gymerir. Ar y sail honno ni chaiff unrhyw beth ei gynnwys na'i hepgor, ac mae prosesau allweddol yn y rheoliadau CDS a Llawlyfr CDS drafft sy'n ymwneud ag elfennau megis creu sylfaen o dystiolaeth. | |
| CYF: PACTO5 | **Cais PACTO:** Bod y sylfaen o dystiolaeth yn cynnwys yn benodol:<br>• Mapio hygyrchedd gwledig a dadansoddi amddifadedd trafnidiaeth.<br>• Asesu angen trafnidiaeth sydd heb ei ddiwallu ar draws iechyd, cyflogaeth, a chyfranogiad cymdeithasol.<br>• Ystyriaeth fanwl i'r galw yn y dyfodol oherwydd newid demograffig (e.e. poblogaeth Sir Benfro, sy'n prysur heneiddio).<br>• Cydnabod trafnidiaeth gymunedol fel lliniarydd allweddol i anghydraddoldeb mewn ardaloedd lle na ellir darparu gwasanaethau masnachol neu statudol.<br><br>Mae PACTO yn barod i ddarparu data sydd eisoes yn bodoli a chydweithio ar dystiolaeth newydd yn ôl y galw. | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r CC yn ddogfen weithdrefnol sy'n nodi sut cynhyrchir y cynllun, pwy fydd yn rhan o hynny, a faint o amser a gymerir. Ar y sail honno ni chaiff unrhyw beth ei gynnwys na'i hepgor, ac mae prosesau allweddol yn y rheoliadau CDS a Llawlyfr CDS drafft sy'n ymwneud ag elfennau megis creu sylfaen o dystiolaeth. | Nac oes |
| CYF: PACTO6 | **3.3 Integreiddio Trafnidiaeth Gymunedol yn Gynnar i'r Arfarniad** | Sylwadau wedi'u nodi. Mae'r CC yn | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynaliadwyedd (ACI/AAS/AEI)**<br>Mae'r CC yn egluro y bydd yr ACI/AAS/AEI yn integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, sosio-economaidd, iechyd a chysylltiedig â'r Gymraeg ar hyd y broses o baratoi'r cynllun.<br>O ystyried y dystiolaeth sylweddol sy'n cysylltu mynediad at drafnidiaeth â'r canlynol:<br>• deilliannau iechyd,<br>• cyflogaeth a sgiliau,<br>• ynysu cymdeithasol,<br>• effeithiau ar gydraddoldeb,<br><br>mae'n rhaid i drafnidiaeth gymunedol fod yn ganolog wrth lywio'r asesiadau hyn.<br>**Cais PACTO:**<br>• Bod cyfnod rhychwantu'r ACI (Mai–Mehefin 2026) yn ystyried anfantais o ran trafnidiaeth a darpariaeth trafnidiaeth gymunedol yn benodol.<br>• Bod PACTO a'i aelodau yn cael gwahoddiad i gyfrannu tystiolaeth ynghylch symudedd iechyd, ynysu cymdeithasol, effeithiau ar gydraddoldeb a goblygiadau o ran y Gymraeg (yn enwedig mewn cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith). | ddogfen weithdrefnol sy'n nodi sut cynhyrchir y cynllun, pwy fydd yn rhan o hynny, a faint o amser a gymerir. Ar y sail honno ni chaiff unrhyw beth ei gynnwys na'i hepgor, ac mae prosesau allweddol yn y rheoliadau CDS a Llawlyfr CDS drafft sy'n ymwneud ag elfennau megis creu sylfaen o dystiolaeth a rhychwantu cynnwys ar gyfer Asesiad Effaith Integredig lle bydd y materion hyn yn cael eu hystyried. | |
| CYF: PACTO7 | **3.4 Cynrychiolaeth ar Weithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (SPSC)** | Sylwadau wedi'u nodi. Mae Gweithgor yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y Gweithgor hwn fydd yn goruchwylio'r gwaith o baratoi'r CDS ac yn ystyried elfennau allweddol o'r CC, y sylfaen o dystiolaeth a phrosesau ymgynghori.<br>Er bod yr aelodaeth wleidyddol yn sefydlog, mae'r CC yn nodi y bydd yr SPSC yn sicrhau bod *cyngor arbenigol penodol i'r sector* ar gael.<br><br>**Cais PACTO:** Bod Gweithgor yr SPSC yn cynnwys cynrychiolaeth (neu'n gwahodd cyfranogiad fel mater o drefn) o'r canlynol:<br>• Arbenigwyr trafnidiaeth gymunedol<br>• Arbenigwyr ar symudedd gwledig<br>• Ymgynghorwyr trafnidiaeth sector gwirfoddol<br><br>Gall PACTO ddarparu cynrychiolwyr neu enwebu arbenigwyr o fewn y sector o Sir Benfro. | (SPSC) yn cynnwys Aelodau Cabinet pob un o'r aelodau perthnasol sydd â chyfrifoldeb am gynllunio. Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r strwythur llywodraethu cytunedig ar gyfer goruchwylio'r broses o baratoi'r CDS ac ystyried y CC, y sylfaen o dystiolaeth a'r prosesau ymgynghori.<br><br>Er bod y Cytundeb Cyflawni yn cydnabod pwysigrwydd cyngor arbenigol a phenodol i'r sector, ni ragwelir y bydd cynrychiolaeth ychwanegol ffurfiol yn ymuno â Gweithgor yr SPSC yn y cyfnod hwn. Yn hytrach, ceisir mewnbwn arbenigol trwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys ymgynghori â Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat, ymarferion casglu tystiolaeth, cyfnodau ymgynghori statudol a fforymau sefydledig ar gyfer craffu ac ymgysylltu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod arbenigedd perthnasol, gan gynnwys ar faterion trafnidiaeth a symudedd, yn gallu llywio'r gwaith o baratoi'r cynllun mewn modd cymesur, ochr yn ochr â chynnal trefniadau a rolau llywodraethiant clir ar gyfer gwneud penderfyniadau. | |
| CYF: PACTO8 | **3.5 Alinio'r CDS a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)**<br>Mae'r CC yn cydnabod y gofyniad statudol i CBCau baratoi CDS a CTRh, a bod rhaid i'r ddau gynllun gael eu halinio'n fanwl.<br>Mae trafnidiaeth gymunedol yn allweddol wrth bontio rhwng cynllunio defnydd tir a darparu trafnidiaeth leol. O fethu ag integreiddio Trafnidiaeth Gymunedol yn briodol i'r ddau gynllun, mae perygl:<br><br>• bydd bylchau mynediad gwledig yn parhau<br>• mwy o ynysu cymdeithasol<br>• llesteirio cyflawni'r Nodau Llesiant<br>• tanseilio amcanion datgarboneiddio<br>**Cais PACTO:** Bod y CC yn pwysleisio'r angen am **ymgysylltiad paralel â sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol** ar draws y CDS a'r CTRh, ac y dylai tystiolaeth a gesglir ar gyfer y naill broses gael ei | Sylwadau wedi'u nodi. Bydd y CDS a'r CTRh yn sicrhau aliniad â'i gilydd. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bwydo’n uniongyrchol i’r llall. | | |
| CYF: PACTO9 | **3.6 Yr angen am Ddarparu Adnoddau ar gyfer y Prosesau Tystiolaeth ac Ymgysylltu**<br>Mae PACTO yn nodi bod y CC yn cydnabod heriau adnoddau a staffio sylweddol i dîm y CDS, a allai lesteirio ehanger a dyfnder casglu tystiolaeth ac ymgysylltu cynnar.<br>Gallai hyn achosi anfantais yn arbennig i gymunedau gwledig a sefydliadau trydydd sector llai sy’n dibynnu ar ddeialog cynnar.<br>**Cynnig PACTO:** Mae PACTO yn barod i gynorthwyo trwy wneud y canlynol:<br>• darparu tystiolaeth gynnar,<br>• hwyluso sesiynau ymgysylltiad cymunedol,<br>• cefnogi ymgyngoriadau gwledig, a<br>• chyfrannu astudiaethau achos profiad bywyd i drigolion Sir Benfro.<br><br>Gall hyn liniaru rhai cyfyngiadau o ran adnoddau, ochr yn ochr â sicrhau bod lleisiau gwledig yn cael eu hadleisio’n briodol. | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |
| CYF: PACTO10 | **4. Sylwadau ar y Dull Ymgynghori (CCG)**<br>Mae PACTO yn croesawu:<br>• Agwedd strwythuredig y CC at gyfnodau ymgynghori o 5 wythnos a 6 wythnos.<br>• Ymrwymiadau i ymgysylltu dwyieithog a chynhwysiad digidol. | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Prosesau clir ar gyfer rheoli cynrychiolaethau a chynnal tryloywder.<br><br>**Cais PACTO:** Bod gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yn cael eu cynnwys yn y canlynol:<br>• Ymgysylltiad targedig ar gyfer cyfnod Rhychwantu'r ACI (2026).<br>• Digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir (2028).<br>• Sesiynau rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghori ar y Cynllun Adnau (2029).<br><br>Dylid ystyried defnyddwyr trafnidiaeth gymunedol—yn aml pobl hŷn, pobl anabl, a phobl heb drafnidiaeth breifat—hefyd yn benodol fel grŵp blaenoriaeth anodd eu cyrraedd yn y CCG. | | |
| CYF: PACTO11 | **5. Casgliadau a Chrynodeb o'r Prif Geisiadau**<br>Mae PACTO yn cefnogi'r CC yn gadarn ac yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ar hyd y broses o baratoi'r CDS. Er mwyn sicrhau nad yw cymunedau gwledig a rhai sydd o dan anfantais o ran trafnidiaeth yn cael eu gadael ar ôl, gofynnwn am y newidiadau a'r ymrwymiadau canlynol:<br>**Prif Geisiadau**<br>1. **Cydnabod trafnidiaeth gymunedol yn benodol fel** | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **rhanddeiliad** yn y Cytundeb Cyflawni a'r CCG.<br>2. **Dadansoddiad symudedd a mynediad gwledig cynhwysfawr** fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth.<br>3. **Cynnwys effeithiau Trafnidiaeth Gymunedol yn yr ACI/AAS/AEI**, yn enwedig yng nghyswllt cydraddoldeb, iechyd a llesiant cymdeithasol.<br>4. **Llwybr ymgysylltu ffurfiol i ddarparwyr Trafnidiaeth Gymunedol** ym mhrosesau Gweithgor yr SPSC.<br>5. **Aliniad penodol rhwng y CTRh a'r CDS** yng nghyswllt datrysiadau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned.<br>6. **Cynnwys defnyddwyr Trafnidiaeth Gymunedol fel grŵp blaenoriaeth** mewn methodolegau ymgynghori.<br><br>Mae PACTO wedi ymrwymo i gefnogi'r CBC trwy ddarparu data, cefnogi ymgysylltiad ac arbenigedd polisi.<br>Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n adeiladol wrth i'r Cynllun Datblygu Strategol fynd rhagddo. | | |
| **Tanya Morgan** | | | |
| CYF TM1 | Mae angen mwy o gartrefi cyngor ym Mlaendulais, yn enwedig fflatiau i bobl sengl neu gyplau sy'n llenwi tai 3 ystafell wely ar hyn o | Sylwadau wedi'u nodi. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw yng | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bryd. Gallai'r hen domenni gael eu defnyddio. Lle chwarae newydd braf i blant fel yr un yn Tonna neu yng Nglyn-nedd. Byddai'n dda cael gorsaf betrol Tesco fel yr un yng Nglyn-nedd lawr wrth Nant y Cafan. Ffyrdd deche sydd ddim yn llawn tyllau. Beth am Greggs | nghyfnodau cynhyrchu'r CDS yn y dyfodol. | |
| **Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru** | | | |
| CYF: H1 | Diolch am ymgynghori â ni ar y ddogfen hon. Ni sy'n cynghori Awdurdodau Unedol Cymru ynghylch archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer materion cynllunio, rhag-gynllunio a rheoli treftadaeth.<br>Fel yr ydym wedi nodi yn ein hymatebion i ymgyngoriadau'r CDLl a'r CDLlA, mae archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol yn rhan bwysig o dreftadaeth y rhanbarth hwn. Mae cynnwys Polisïau ac Amcanion trwy'r system CDS/CDLlA yn sicrhau bod newid i archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli'n gynaliadwy, ei ddeall, a'i ddiogelu yn y cyd-destun cynllunio.<br>Mae archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys ystod eang o asedau hanesyddol â dynodiad statudol, yn ogystal ag asedau hanesyddol heb eu dynodi: ardaloedd o dir, strwythurau, arteffactau, a gweddillion archaeolegol sydd wedi'u claddu. Yn ôl cyfnodau amser, mae'r ystod o safleoedd yn cynnwys arteffactau a gweddillion sydd wedi'u claddu neu yn y golwg o'r cyfnod cynhanes i'r cyfnod | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | modern. Gall hynny olygu cynrychiolaeth graddfa fawr o echdynnu mwynau a metelau, cludiant a rheoli tir a dŵr, yn ogystal â phatrymau aneddiadau ucheldir cynhanesyddol a gwybodaeth am ganfyddiadau ynysig o bob cyfnod, sydd i gyd yn cyfrannu at dreftadaeth unigryw'r rhanbarth a'i ffurf bresennol.<br>Cadw sy'n gyfrifol am y safleoedd a warchodir yn statudol, a Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru (a ffurfiwyd pan ddaeth pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru gynt ynghyd yn 2024) sydd â gofal am y safleoedd heb eu dynodi. Mae Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, a'r Polisi, y Cyngor a'r Canllawiau Arfer Da a raeadrwyd yn sgîl hynny, yn darparu fframwaith ar gyfer eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu ar lefel strategol er mwyn rheoli newid. | | |
| CYF: H2 | Dylid ychwanegu Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 at y rhestr ym Mharagraff 4.7. | Sylwadau wedi'u nodi. **Ychwanegir Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 at y rhestr o ddeddfwriaeth.** | Oes |
| CYF: H3 | Ni ddylid gweld Archaeoleg a'r Amgylchedd Hanesyddol fel rhywbeth sy'n llesteirio datblygiad ar unrhyw raddfa, ond o'i ystyried yng Nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'n cyfrannu'n sylweddol at y nodau llesiant sy'n ymwneud â diwylliant a chymuned, ac at ddeall a gwella'r nodau sy'n weddill.<br>Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn ddefnyddiol ac yn olrhain y broses | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a'r cyfnodau allweddol sy'n caniatáu i ni fod yn ymwybodol o ymgyngoriadau i ddod, a dylem barhau yn ymgynghorai. Mewn rhai meysydd gallwn gyfrannu at ffurf y cynllun yng nghyswllt archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Tîm Adferiad Natur – Cyngor Abertawe** | | | |
| CYF:SCNRT1 | Diolch am ymgynghori â'r Tîm Adfer Natur yng Nghyngor Abertawe. Gallaf gadarnhau ein bod am i chi barhau i ymgynghori â ni ar hyd cyfnod datblygu'r cynllun. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |
| CYF:SCNRT2 | Nid oes gennym sylwadau i'w gwneud ar y CC, fodd bynnag o ran Atodiad 4 – Rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol, teimlwn y dylid cynnwys y grwpiau ychwanegol canlynol ar gyfer Abertawe:<br><br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (WTSWW)<br>Associated British Ports (ABP)<br>Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun (CVCP)<br>Cymdeithas Trigolion yr Ardal Forol (MQRA)<br>Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA)<br>Gwneud Gwahaniaeth Abertawe / Swansea MAD<br>Ffermwyr Ifanc<br>YMCA<br>Pobl yw Codi bellach (tai) | Sylwer ein bod eisoes wedi ymgynghori â grŵp tai Codi, YMCA, Ffermwyr Ifanc, Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun, (CVCP), Associated British Ports (ABP), Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (WTSWW) a SWTRA fel rhan o Atodiad 4.<br><br>**Ychwanegir Swansea MAD- Make A Difference a Chymdeithas Trigolion yr Ardal Forol (MQRA) at Atodiad 4** | Oes |

| Ymddiriedolaeth Cychod Cymunedol Abertawe | | | |
|---|---|---|---|
| CYF SCBT1 | Ymddiriedolaeth Cychod Cymunedol Abertawe sy’n rhedeg “Copper Jack” ar hyd Afon Tawe, o’r tu allan i Amgueddfa’r Glannau hyd at safleoedd y Gweithfeydd Copr yng Nglandŵr, lle gosodwyd pontŵn glanio yn ddiweddar.<br><br>Mae 100,000 o deithwyr wedi ymuno â ni ers 2011 – cyflawniad gwych gan yr Ymddiriedolaeth.<br><br>Adeiladwyd Copper Jack at y diben yn 2014 i gludo ystod eang o bobl, gan gynnwys rhai â symudedd cyfyngedig. Mae ganddo lifft platfform mynediad, ystafell ymolchi wedi’i haddasu a gwres canolog. Trwyddedir Copper Jack gan yr Asiantaeth Forol a Cheidwad y Glannau (MCA) i gario 47 o deithwyr, er mai rhyw 40 yw’r nifer arferol.<br><br>Mae’r prosiect yng ngofal gwirfoddolwyr di-dâl. Caiff y rhai sy’n llywio’r cwch eu hyfforddi’n fewnol a’u trwyddedu gan MCA. Mae’r tywyswyr treftadaeth yn cynnig sylwebaeth fywiog sy’n amlygu treftadaeth ddiwydiannol ac elfennau bywyd gwyllt diddorol coridor yr afon wrth i’r cwch fynd heibio. | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Copper Jack wedi dod yn rhan allweddol o'r cyrchfan twristiaid sy'n cael ei ddatblygu ym mhen isaf Cwm Tawe, gan ei fod yn cysylltu Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, y Gwaith Copr, Whisgi Penderyn a strwythurau treftadaeth ar hyd glannau'r afon yn un pecyn.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r cynigion i gysylltu teithio ar hyd afon Tawe â chamlesi hanesyddol Tenant ac Abertawe, a thrwy hynny greu system 35 milltir o ddyfrffyrdd mewndirol ar draws Bae Abertawe. Diogelir y llwybrau gan CDLl CNPT ac Abertawe, a chan CCA Coridor Fabian.<br>Gweler adroddiad yr ymgynghorwyr, a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2025:<br><br>https://drive.google.com/file/d/1Xo08bPFxcSAyiB_RMpF6QoWOytCDAKZX/view?usp=sharing<br><br>Bydd rhoi sylw i argyfwng yr hinsawdd trwy greu ardaloedd coedwig drefol, gyda thrafnidiaeth gynaliadwy (cychod teithwyr a llwybrau teithio llesol), hefyd yn gwella'r cynnig i ymwelwyr.<br><br>Gallai Llwybr Treftadaeth newydd sy'n cysylltu'r safleoedd treftadaeth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar hyd dyfrffyrdd Cwm Nedd a Chwm Tawe gael ei farchnata fel cyrchfan ymwelwyr ag arwyddocâd cenedlaethol.<br>**Y cyfraniad at Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2021-30)**<br>Mae teithiau cwch Copper Jack eisoes yn cefnogi *"Nod 3: Cynyddu a chynnal y 'profiadau' a gynigir"*. Mae'n gynnig treftadaeth dilys, a grewyd gan y gymuned leol ac sy'n cael ei werthfawrogi gan ymwelwyr, *"sy'n dod â'n tirluniau ôl-ddiwydiannol a naturiol yn fyw ac yn hybu bywyd iach i bawb".*<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn falch o nodi *"Y bydd y CBC... yn sefydlu mecanweithiau ar gyfer llais cryf anllywodraethol (er enghraifft o'r... trydydd sector) wrth ddylanwadu ar flaenoriaethau a chynnal gorolwg."* | | |
| CYF SCBT2 | **Sylwadau cychwynnol ar Gytundeb Cyflawni Drafft y CDS (2026-2051)**<br>Ar sail darlleniad cyntaf, nodwn yr ymrwymiad parhaus i gynyddu a chynnal yr economi profiadau, a'r cydnabyddiaeth i gyfraniad treftadaeth ddiwydiannol.<br>Hefyd bod Bioamrywiaeth, Creu Lleoedd a Her yr Hinsawdd ymhlith y Deilliannau Allweddol<br>Ydy'r "ddyletswydd sosio-economaidd" (tudalen 14) yn cynnwys manteision iechyd i'r gymuned? | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sonnir am “bortffolio a chynlluniau” RhDoC – ble mae modd gweld y rhain?<br><br>Os oes bwriad i gynnal prosiectau â mewnbwn sylweddol gan wirfoddolwyr, efallai byddai’n werth ystyried paneli ymgynghori gyda chynrychiolwyr cymunedol? Byddai hynny’n helpu i sicrhau bod Cynllun Cynnwys y Gymuned yn “effeithiol ac yn ystyrlon” trwy ddarparu dull strwythuredig i’r gymuned berchnogi’r broses i ryw raddau.<br>Ymddengys efallai bod y broses ymgynghori a amlinellwyd braidd yn gyfyngol o ran dull gweithredu, ond mae’r Ymddiriedolaeth yn cytuno bod “disgwyliadau realistig” yn hanfodol.<br><br>Mae Ymddiriedolaeth Cychod Cymunedol Abertawe yn edrych ymlaen at fod yn rhan o’r ymgyngoriadau cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffafrir a’r Cynllun Adnau yn y man. | | |
| CYF SCBT3 | **Y Potensial i’r Gymuned Elwa o’r Cynllun Datblygu Strategol (2026-2051)**<br>Mae angen cyllid sylweddol ar rai prosiectau a ysbrydolwyd gan y gymuned, megis adfywio dyfrffyrdd mewndirol Bae Abertawe. Maent hefyd yn croesi ffiniau cynghorau. Gallai’r CDS gyflawni rôl allweddol o ran hwyluso a chydlynu mynediad cymunedol at raglenni ariannu. | Sylwadau wedi’u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod cyflawniadau perchnogion y camlesi, y sefydliadau gwirfoddol, yr awdurdodau lleol a'r rhanddeiliaid eraill sydd wedi ymwneud ers blynyddoedd lawer â'r gwaith parhaus i adfywio camlesi Abertawe, Nedd a Thenant.<br><br>O 1974 ymlaen adferwyd Camlas Nedd gan Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd (CBS CNPT yn ddiweddarach), a gosodwyd Dyfrbont newydd drawiadol Ynysbwllog yn ei lle yn 2008. Cafodd y prosiect ei gychwyn a'i gynnal gan grŵp gwirfoddol – Ymddiriedolaeth Camlesi Nedd a Thenant – er mai'r awdurdod leol sicrhaodd lawer o'r cyllid. Mae peth o'r seilwaith a adferwyd bellach yn dirywio oherwydd diffyg defnydd gan gychod, er bod y gamlas a'r llwybr halio yn dal i gael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer hamdden actif a thwristiaeth.<br><br>O 1981 ymlaen, adferwyd Camlas Abertawe yn bennaf gan grŵp gwirfoddol arall – Cymdeithas Camlas Abertawe, er bod cyllid gan Gyngor Abertawe wedi hwyluso adeiladu canolfan ymwelwyr â'r gamlas ac ailagor dwy loc yng Nghlydach yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn gyflawniadau rhyfeddol gan gorff gwirfoddol.<br><br>Ers 2011, mae cychod cymunedol Abertawe – "Copper Jack" ar hyn o bryd – wedi bod yn teithio i fyny ag i lawr Afon Tawe. Cefnogwyd y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prosiect gan Gyngor Abertawe o'r cychwyn, yn fwyaf diweddar trwy ddarparu'r pontŵn glanio ar safle'r Hafod/Gwaith Copr y Morfa, ac mae bwriad i osod eraill ar hyd y rhan o'r afon a fordwyir ac ar y Glannau yn Abertawe.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn awgrymu, petai'r cynlluniau adfywio camlesi yng Nghastell-nedd ac Abertawe, ynghyd â'r cwch cymunedol ar afon Tawe, wedi digwydd yr un pryd, y byddai hynny wedi rhoi hwb sylweddol i ddatblygiad Dyfrffordd Fewndirol Bae Abertawe.<br><br>Gallai Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru (2026-2051) gyflawni rôl strategol allweddol, trwy ddod â sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid eraill ynghyd i roi prif gynllun ar waith er mwyn cyflawni'r prosiect dyfrffyrdd rhanbarthol fesul cyfnod rheoladwy wrth i gyllid ddod ar gael. | | |
| **Heddlu De-orllewin Cymru – Dylunio i Ddileu Troseddu – Mike Harvey** | | | |
| CYF: SWWP1 | O ran yr uchod, ac ar adeg briodol yn y broses, hoffwn gael cyfle i gyflwyno cais, ac i nodi pwysigrwydd sicrhau mai un o amcanion y CDS yw Cymru Saff a Diogel. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol iawn dros y blynyddoedd i Dylunio i Ddileu Troseddu a Diogel drwy Ddyluniad, a hynny trwy eu cynnwys mewn amrywiol ddogfennau a pholisïau. | | |
| CYF: SWWP2 | **Cartrefi a Mannau Hardd Llywodraeth Cymru.**<br>Mae'n rhaid i'r holl dai cymdeithasol Cymru a ariannir trwy grantiau Llywodraeth Cymru fodloni Safon Aur Diogel drwy Ddyluniad i fodloni'r Gofynion Ansawdd Datblygu (DQR) a nodwyd yn Cartrefi a Mannau Hardd.<br>**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 Llywodraeth Cymru.**<br>Mae paragraff 5.17.2 TAN12 yn nodi "Cynghorir awdurdodau lleol i ymgynghori â Swyddogion Dylunio i Ddileu Troseddu ynghylch rhag-geisiadau a cheisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau hynny lle mae potensial i ddileu neu leihau troseddu trwy fabwysiadu mesurau addas wrth ddylunio. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos datblygiadau pwysig megis ystadau tai newydd, ystadau diwydiannol, canolfannau siopa, cyfadeiladau hamdden, ysgolion a meysydd parcio. Mae'n bwysig ymgynghori â Swyddogion Dylunio i Ddileu Troseddu cyn gynted â phosibl – erbyn i chi gyflwyno cais ffurfiol, gallai'r cyfleoedd i roi sylw i gyngor fod yn gyfyngedig eisoes."<br>Mae paragraff 5.17.3 TAN 12 yn nodi "Mae'r Fenter Mannau Mwy Diogel a Diogel drwy Ddyluniad yn darparu safonau cydnabyddedig, y gwelwyd eu bod yn lleihau troseddu (yn enwedig byrgleriaeth o dai) ac effaith troseddu ar gymdogaethau. Byddai'n ddymunol bod | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | diogelwch pob datblygiad tai, adeilad cyhoeddus, a phob adeilad a ariannir gan gyrff cyhoeddus, yn cyrraedd safonau mesuradwy tebyg."<br><br>**Canllawiau Datganiadau Dylunio a Mynediad Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2017**<br><br>Nodir o dan Baragraff (v): "Sut mae egwyddorion Diogel drwy Ddyluniad wedi cael eu hystyried, a manylion unrhyw ymgynghori â Swyddogion Dylunio i Ddileu Troseddu (DOCO)."<br><br>**Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 2024:**<br><br>O dan 3.11 mae PCC yn datgan bod "Awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr angen am atal a lleihau trosedd ac anhrefn yn eu holl benderfyniadau. Mae atal troseddu ac ofn trosedd yn ystyriaethau cymdeithasol y dylid rhoi sylw iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Dylid anelu at greu amgylcheddau diogel lle na pheryglir ansawdd dylunio, yn unol â nod llesiant cymunedau cydlynus."<br><br>Fel y gwelir o'r uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i ddiogelwch cymunedol ac atal troseddu, a hefyd wedi cefnogi Diogel | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | drwy Ddyluniad.<br><br>**Deddfwriaeth Genedlaethol.**<br><br>**Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.**<br><br>Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn yn gofyn bod awdurdodau lleol yn ystyried goblygiadau trosedd ac anhrefn yn eu holl awdurdodau a swyddogaethau, ac yn gwneud popeth rhesymol o fewn eu gallu i leihau'r problemau hyn.<br><br>**Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG).**<br><br>Ni ellir mesur y niwed a achosir i ddioddefwyr a chymdeithas gan drais yn erbyn menywod a merched (VAWG) yn ei holl ffurfiau, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i aflonyddu, stelcio, treisio, ymosodiadau rhywiol, llofruddio, cam-drin ar sail anrhydedd a rheolaeth trwy orfodi. Er bod dynion a bechgyn hefyd yn dioddef o lawer o'r mathau hyn o gamdriniaeth, mae eu heffaith ar fenywod yn anghymesur.<br><br>Yng ngwanwyn 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref fod Trais yn erbyn Menywod a Merched yn fygythiad cenedlaethol, a'i gynnwys | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y 9 Gofyniad Plismona Strategol (SPR) ochr yn ochr â brawychiaeth, troseddu difrifol wedi'i drefnu, a cham-drin plant yn rhywiol.<br>Gall Diogel drwy Ddyluniad helpu i sicrhau bod pob ffurf ar yr amgylchedd adeiledig wedi'i lunio i leihau cyfleoedd i fod yn Dreisgar at Fenywod a Merched (VAWG) a chyfrannu at wneud lleoedd o'r fath yn rhai sy'n teimlo'n ddiogel i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu ynddynt.<br><br>O ganlyniad, byddwn i'n gofyn i chi ymgynghori â mi ar adeg briodol yn y broses, er mwyn i mi gynhyrchu adran yn y CDS dan y pennawd Cymru Saff a Diogel. | | |
| **Masnach a Thwristiaeth Gogledd Penfro** | | | |
| CYF: NPTT1 | Diolch am y gwahoddiad i fod yn berson cyswllt ar gyfer Masnach a Thwristiaeth Gogledd Penfro gyda CBCDoC. Rwyf wedi darllen rhai o'r dogfennau ac edrychaf ymlaen at y cyfnod nesaf. | Sylwadau wedi'u nodi | Nac oes |
| CYF: NPTT2 | O ran sylwadau cychwynnol, byddwn i'n dweud nad yw twristiaeth ac amaethyddiaeth, y sectorau cyflogaeth mwyaf a mwyaf hirhoedlog yn y rhanbarth, yn cael eu cydnabod yn ddigonol wrth ddadansoddi'r rhanbarth. Yn sicr, yng Ngogledd Penfro nhw yw'r mwyaf arwyddocaol, ac mae'n destun pryder nad oes sôn am eu dyfodol. | Sylwadau wedi'u nodi. | Nac oes |